EISTEDDFOD YR URDD

BRO'R WENYNEN

GWENT 2027

29 Mai - 4 Mehefin, 2027

RHESTR TESTUNAU

1 Rhestr, 400 cystadleuaeth

Urdd

Rhestr Testunau

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Bro'r Wenynen, Gwent
29 Mai – 4 Mehefin, 2027

Llio Elain Maddocks
Cyfarwyddwr y Celfyddydau
Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
Ffôn: 01678 541014
Ebost: lliomaddocks@urdd.org

Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd, LL23 7ST
Ebost: eisteddfod@urdd.org

Mae'r Urdd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth a chydweithrediad y partneriaid canlynol er mwyn cynnal cystadlaethau amrywiol: Colegau Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Prifysgol Caerdydd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, IntoFfilm, Mudiad Meithrin, Cyngor Llyfrau Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Newyddion S4C, Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, a Cymdeithas Edward Llwyd.

Urdd

Crëwyd 30/09/2026 1221

Cynnwys

Clic!
Gallwch glicio ar unrhyw un o'r adrannau yn y rhestr cynnwys i fynd yn syth at yr adran berthnasol.

Gair o Groeso 4
Beth ydy Eisteddfod yr Urdd? 5
Cerdd Groeso Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen 2027 6
Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 7
Hunan-ddewisiad a Hawlfraint 8
Sut i Gystadlu 9
Dyddiadau i'w Cofio 10
Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru 11
Cyfeiriadau Cyhoeddwyr 12

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

Cerddoriaeth: Lleisiol 14
Cerddoriaeth: Canu Gwerin 20
Cerddoriaeth: Offerynnol 22
Cerddoriaeth: Band/Artist Unigol 29
Cerddoriaeth: Lleisiol 30
Cerdd Dant 30
CogUrdd 34
Dawnsio Gwerin 35
Dawns 38
Llefaru 41
Siarad Cyhoeddus 43
Theatr 44
Trin Gwallt a Harddwch 49

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

Cystadlaethau ADY 53
Cynllunio Crys-T 54
Cymeriad Cartŵn 55
Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au) 55
Llun 2D 55
Gwaith Creadigol 2D 55
Graffeg Cyfrifiadurol 56
Ffotograff Wedi'i Addasu 56
Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn 56
Ffotograffiaeth: Llun Lliw 57
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn 57
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw 58
Argraffu 58
Addurno ar ffabrig 58
Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig 59
Ffasiwn 59
Pypedau 60
Gwaith 3D 60
Uwchgylchu 61
Serameg 61
Gemwaith 62
Dylunio a Thechnoleg 62
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed 63
Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed 63
Cyfansoddi: Cerddoriaeth 64
Cyfansoddi: Cerdd Dant 65
Cyfieithu 66
Darlunio Llyfr Stori-a-llun 67
Creu Ap 67
Creu Gwefan 68
Cynnwys Digidol 69
Ffilm 69
Gofal Plant 70
Prosiect Gwyddonol 71
Llenyddiaeth 71
Dysgwyr 75
Dysgwyr: Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio 76
Cystadleuaeth Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd 76
Ysgoloriaeth Geraint George 77
Meithrin Talent – Talent Meithrin 78
Newyddiaduraeth 78
Cyfansoddi: Drama 79
Eisteddfod T 79

Arall

Cystadlaethau nad ydynt yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth 81
Cystadlaethau oedran hŷn sy'n mynd yn syth i'r Genedlaethol yn 2027 82
Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 83

Gair o Groeso

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2027 yn dwyn ei henw oddi ar un o enwogion mawr yr ardal, sef yr Arglwyddes Llanofer – un a fu'n gefnogol iawn ar hyd ei hoes i'r Gymraeg ac i ddiwylliant gwerin Cymru – mae yna fwrlwm o weithgareddau a chyffro mawr eisoes ym Mro'r Wenynen, wrth i drigolion yr ardal baratoi i groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i ddinas Casnewydd am y tro cyntaf erioed. Mae'r gwirfoddolwyr lleol a chenedlaethol, ynghyd â staff eithriadol yr Urdd yn brysur iawn yn sicrhau y bydd hi'n eisteddfod arbennig iawn.

Dyma eich cyfle chithau i fod yn rhan o'r hwyl a'r bwrlwm trwy fentro i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2027. Mi fydd yna nifer fawr ohonoch, rwy'n siŵr, wedi cystadlu yn y gorffennol... ewch amdani unwaith eto! Ac os nad ydych wedi cystadlu o'r blaen... wel, ewch amdani y tro hyn! Wnewch chi ddim difaru. Fel arfer, wrth gwrs, dim ond un enillydd sydd... neu o leiaf dim ond un medal aur! Ond mae pawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ar ei ennill oherwydd bod cymryd rhan yn unrhyw un o'r cystadlaethau yn golygu eich bod chi'n dod yn rhan o un teulu mawr sy'n mentro i fod y greadigol, sy'n gwneud eich gorau glas, ac sy'n cynnau fflam gobaith... y gobaith mai chi sy'n mynd i ddod i'r brig! Ac mae'r Rhestr Testunau hon, sy'n llawn i'r ymylon o amrywiaeth o gystadlaethau, yn cynnig cyfle i bawb ddisgleirio, trwy naill ai droi unwaith eto at grefft sy'n gyfarwydd iawn, neu fentro i dir cwbl newydd.

Wrth gwrs, er mwyn dod i'r brig, mae gofyn am lot fawr o waith caled; ac mae pawb, waeth pa mor dalentog ydyn nhw, angen ychydig bach o help, a hynny gan riant, neu athro neu hyfforddwr. Fydda'i Eisteddfod yr Urdd ddim y llwyddiant ag ydi hi, o un flwyddyn i'r llall, oni bai am yr unigolion eithriadol hynny sy'n hybu talentau a chreadigrwydd ein pobl ifanc. Dyma ddiolch o galon ymlaen llaw iddyn nhw am eu hymroddiad a'u doniau hwythau.

I'r rheini sydd well ganddyn nhw gystadlu ochr yn ochr ag eraill, mae yna lu o gystadlaethau i ddewis ohonynt – ar gyfer dau, neu dri neu grŵp neu dorf! Ac wrth gwrs, fel pob blwyddyn arall, mae yna doreth hefyd o gystadlaethau sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc Cymru ddisgleirio heb orfod rhoi cam o gwbl ar lwyfan!

Fe gyflwynwyd ambell gystadlaethau newydd sbon y llynedd, yn arbennig felly i rai ag anghenion dysgu ychwanegol ac i'r rheini sy'n newydd i'r iaith, ac mae'r cystadlaethau hynny wedi eu cynnwys yma eto eleni. A gan fod yna lawer iawn, iawn o ddysgwyr y Gymraeg ym mro'r Eisteddfod yn 2027, dyma gyfle arbennig efallai i'r rheini sy'n newydd i'r iaith i fentro ac i ddisgleirio ar lwyfannau'r Urdd.

Waeth pa gystadlaethau fyddwch chi'n rhoi cynnig arnyn nhw y tro hyn, mi fydd gofyn i'r gwaith caled ddechrau yn syth, yn y cartref, yn yr ysgol neu yn yr Aelwyd. Ac mi edrychwn ymlaen at weld ffrwyth y gwaith caled hwnnw yn ein eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, ac wedyn, wrth gwrs ym Mro'r Wenynen, Gwent, 29 Mai – 4 Mehefin, 2027.

Pob lwc i chi i gyd!

Arwel Gruffydd
Cadeirydd Bwrdd Celfyddydau'r Urdd

Beth ydy Eisteddfod yr Urdd?

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, un o wyliau teithiol ieuenctid mwyaf Ewrop, yn cael ei chynnal dros saith diwrnod yn ystod wythnos y Sulgwyn. Mae'n benllanw tair blynedd o waith caled gan wirfoddolwyr o'r ardal leol ac mae'n cael ei darlledu yn helaeth yn y wasg a'r cyfryngau gan gynnwys teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol a chenedlaethol.

Gŵyl gystadleuol yw'r Eisteddfod gyda thros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu bob blwyddyn mewn cystadlaethau megis canu, dawnsio a pherfformio. Rhain yw'r buddugol o tua 70,000 o gystadleuwyr ledled Cymru sydd wedi ennill eu lle yn y Genedlaethol yn dilyn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarthol sydd yn cael eu cynnal yn ystod misoedd y gwanwyn cyn yr Eisteddfod.

Canolbwynt yr Eisteddfod yw'r cystadlu yn y tri Pafiliwn, ond yn amgylchynu'r Pafiliynau mae stondinau lliwgar sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau ar gyfer y teulu cyfan – o ddringo a sesiynau chwaraeon i ffair, bandiau byw a sioeau plant gyda chymeriadau teledu. Yn ogystal â hyn, gallwch ymweld â'r Arddangosfa Gelf sydd yn gartref i'r holl gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod – tua 500 o weithiau celfyddydol!

Yn 2027 cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro'r Wenynen, Gwent, ac yn 2028 bydd yr Eisteddfod yn teithio i Eryri. Gobeithio y gwelwn ni chi yno!

Cerdd Groeso

Eisteddfod yr Urdd Bro’r Wenynen 2027

Clywch!

Clywch suo yn yr awel,
Clywch siffrwd yn ein bro,
Sŵn oesol â thôn newydd
Sy’n canu yn y co’.

Daw tinc o glychau Rhymni
O fol y pyllau glo
Yn atsain hyd yr afon,
Pob nodyn yn ei tro.

Clywch gynnwrf yn Nhredegar,
Mae Nye yn deffro’r cwm!
Daw gwich a griddfan glowyr
Wrth dynnu’r llwythi trwm.

Sŵn bloedd wrth gyrraedd copa,
A gwybod beth yw byw,
Sŵn sibrwd hen fynyddoedd,
Y Blorens balch a’r criw.

Clywch feirdd yn rhannu cerddi,
Llanofer, Llys Ifor Hael,
A thwrw traed yn mynnu
Bod system well i’w chael.

O lwyfan hen alawon
Ceir lleisiau newydd sbon
Clywch chwa yn troi yn gor-went
A dafn yn troi yn don.

O swn ein ddoe a’n heddiw,
Daw’r hyder yn ein hiaith,
Mae croeso Gwent yn barod
Mae’r gwenyn wrth eu gwaith!

CARYS GLYN

Sganiwch y côd i weld Cân Groeso Eisteddfod yr Urdd 2027 gan Dom a Lloyd a disgyblion ysgolion Gwent

Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

1929	Corwen
1930	Caernarfon
1931	Abertawe
1932	Machynlleth
1933	Caerffili
1934	Hen Golwyn
1935	Caerfyrddin
1936	Blaenau Ffestiniog
1937	Gwaun-cae-gurwen
1938	Aberystwyth
1939	Llanelli
1940	Y Rhyl
1941–5	*Bwlch yn ystod y Rhyfel*
1946	Corwen
1947	Treorci
1948	Llangefni
1949	Pontarddulais
1950	Wrecsam
1951	Abergwaun
1952	Machynlleth
1953	Maesteg
1954	Y Bala
1955	Abertridwr
1956	Caernarfon
1957	Rhydaman
1958	Yr Wyddgrug
1959	Llanbedr Pont Steffan
1960	Dolgellau
1961	Aberdâr
1962	Rhuthun
1963	Brynaman
1964	Porthmadog
1965	Caerdydd
1966	Caergybi
1967	Caerfyrddin
1968	Llanrwst
1969	Aberystwyth
1970	Llanidloes
1971	Abertawe
1972	Y Bala
1973	Pontypridd
1974	Y Rhyl
1975	Llanelli
1976	Porthaethwy
1977	Y Barri
1978	Llanelwedd
1979	Maesteg
1980	Abergele
1981	Castell Newydd Emlyn
1982	Pwllheli
1983	Aberafan
1984	Yr Wyddgrug
1985	Caerdydd
1986	Dyffryn Ogwen
1987	Merthyr Tudful
1988	Maldwyn
1989	Cwm Gwendraeth
1990	Dyffryn Nantlle ac Arfon
1991	Taf Elai
1992	Bro Glyndŵr
1993	Abertawe a Lliw
1994	Meirionnydd
1995	Bro'r Preseli
1996	Bro Maelor
1997	Islwyn
1998	Llŷn ac Eifionydd
1999	Llanbedr Pont Steffan a'r Fro
2000	Bro Conwy
2001	Gŵyl yr Urdd
2002	Caerdydd a'r Fro
2003	Tawe, Nedd ac Afan
2004	Ynys Môn
2005	Canolfan y Mileniwm
2006	Sir Ddinbych
2007	Sir Gâr
2008	Sir Conwy
2009	Bae Caerdydd
2010	Ceredigion
2011	Abertawe a'r Fro
2012	Eryri
2013	Sir Benfro
2014	Meirionnydd
2015	Caerffili a'r Cylch
2016	Sir y Fflint
2017	Penybont-ar-Ogwr, Taf ac Elái
2018	Brycheiniog a Maesyfed
2019	Caerdydd a'r Fro
2020	Eisteddfod T
2021	Eisteddfod T
2022	Sir Ddinbych
2023	Sir Gaerfyrddin
2024	Maldwyn
2025	Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro
2026	Ynys Môn
2027	Bro'r Wenynen, Gwent
2028	Eryri
2029	Ceredigion

Hunan-ddewisiad a Hawlfraint

Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad o fewn y perfformiad.

Dilyna'r camau yma er mwyn sicrhau fod gen ti ganiatâd i ddefnyddio'r gwaith.

Gwybodaeth Bellach
Am ragor o fanylion a chymorth, cer i'r wefan neu e-bostia: hawlfraint@urdd.org.

Ceir cymorth pellach ar glirio hawlfraint drwy gysylltu â Adran Gymraeg PRS for Music ar 020 3741 4033 neu e-bostio: welshtvprogrammes@prsformusic.com

Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi yn anghyfreithlon!

1. Ydy'r darn yn ymddangos ar yr IPC Excluded Works List?

Nac Ydy / Ydy → Hen dro! Ni fydd y cyhoeddwr yn derbyn ceisiadau i greu addasiadau na chyfieithiadau. Dewisa ddarn arall.

2. Ydy'r darn wedi cael ei gyhoeddi yn swyddogol gyda hawlfraint © e.e Mewn llyfr cerddoriaeth, e-gopi neu CD

Ydy / Nac Ydy → Ymlaen i gwestiwn 4

3. Wyt ti wedi defnyddio addasiad, cyfieithiad neu drefniant answyddogol o'r darn o waith neu gân?

Ydw / Nac Ydw → Nac ydw, rwy'n defnyddio'r gwaith gwreiddiol – Gwych! Gan dy fod yn defnyddio darn sydd wedi ei gyhoeddi yn barod, dyna'r oll sydd ei angen am nawr. Cofia uwchlwytho copi o'r darn, wrth gofrestru i gystadlu. Pob Lwc!

4. Wyt ti'n gwybod pwy yw'r cyhoeddwr gwreiddiol neu'r perchennog? (Cofia, nid yw *YouTube* nac *iTunes* yn gyhoeddwyr).

Ydw / Nac Ydw → Edrycha yn y llyfr neu CD gwreiddiol, chwilia ar y we, neu cysylltia â PRS ar 020 3741 4033 neu e-bostio welshtvprogrammes@prsformusic.com

5. Wyt ti wedi dod o hyd i fanylion cyswllt y cyhoeddwr / perchennog?

Do / Naddo → Edrycha ar dudalen 15 y Rhestr Testunau, neu ar wefan y cwmni

6. Os oes gen ti gyfieithiad, wyt ti wedi creu cyfieithiad 3 llinell o dy gyfieithiad neu addasiad (gan gynnwys addasiadau ar gyfer Cân Actol)?

Do / Naddo → Dilyna'r linc hwn i fynd i lawrlwytho esiampl a chanllawiau i greu cyfieithiad 3 llinell.

7. Lawrlwytha'r templed llythyr perthnasol o wefan yr Urdd, gan lenwi'r blychau gwag.

Danfona'r llythyr i'r cyhoeddwr gwreiddiol, gan adael **4-6 wythnos** am ateb.

8. Ydi'r cyhoeddwr wedi rhoi caniatâd i ti berfformio'r darn?

Do / Naddo → Hen dro! Dewisa gân arall, a cher yn ôl i rhif 1.

9. **Llongyfarchiadau!**
Cofia uwchlwytho copi o'r cadarnhad ysgrifenedig a manylion cyswllt y cyhoeddwr wrth gofrestru i gystadlu.

Sut i Gystadlu

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

1. Pora drwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffet gystadlu ynddi/ynddynt.
2. Sicrha fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2026/2027 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan.
3. Bydd angen cofrestru i gystadlu ym mhob cystadleuaeth cyn y dyddiad cau, 3ydd Chwefror 2027, heblaw am yr eithriadau yng nghefn y Rhestr Testunau lle bydd angen cofrestru erbyn Mawrth 3ydd 2027.
4. Bydd pawb sydd yn cofrestru yn cael eu gwahodd i gystadlu yn eu heisteddfod Cylch neu Rhanbarth.
5. Bydd rhai cystadlaethau Llwyfan a Maes yn hepgor yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, ac yn ymddangos yn syth yn y Genedlaethol. Ceir rhestr o'r cystadlaethau hyn yng nghefn y Rhestr Testunau.
6. Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.

Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg a Gwaith Cartref

1. Pora drwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffet gystadlu ynddi/ynddynt.
2. Sicrha fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2026/2027 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan.
3. Dylai'r holl waith Gwaith Cartref gael ei uwchlwytho wrth gofrestru, erbyn 3ydd Mawrth 2027. Dylai gwaith Celf, Dylunio a Thechnoleg fod wedi ei gofrestru erbyn 14eg Ebrill, 2027.
4. Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.

Dyddiadau i'w Cofio

21 Hydref 2026	Dyddiad cau: Cofrestru CogUrdd a PobUrdd
20 Ionawr 2027	Dyddiad cau: Dawns ac Offerynnol
31 Ionawr 2027	Y dyddiad olaf i gyfrif y disgyblion mewn ysgol
3 Chwefror 2027	Dyddiad cau holl gystadlaethau Llwyfan a Maes, heblaw'r eithriadau yng nghefn y Rhestr Testunau. Rhaid cofrestru pob cystadleuydd erbyn y dyddiad cau. (Cyfnod gwirio: 4–5 Chwefror 2027)
3 Mawrth 2027	Dyddiad cau: • Holl gynnyrch Cystadlaethau Gwaith Cartref, heblaw'r eithriadau yng nghefn y Rhestr Testunau • Cystadlaethau Eisteddfod T • Cystadlaethau Band/Artist Unigol a Band Gwerin • ar gyfer datgan yr eisiau am gyfeilydd am gystadlaethau 19-25 oed • ar gyfer trefnu tympanau.
Mawrth 2027	Eisteddfod 'tu allan i Gymru'.
14 Ebrill 2027	Dyddiad Cau: Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg.
Mai 2027	Beirniadu Celf, Dylunio a Thechnoleg Cenedlaethol
29 Mai – 4 Mehefin 2027	Eisteddfod Genedlaethol Bro'r Wenynen, Gwent
15 Mehefin 2027	Y dyddiad olaf y bydd Adran yr Eisteddfod yn derbyn cais am ddychwelyd cynnyrch yr adrannau Celf Dylunio a Thechnoleg a Gwaith Cartref.
31 Awst 2027	Rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol i gystadlu ar y dyddiad hwn.

Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru

Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Tîm Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cyfarwyddwr
Llio Maddocks

Rheolwr Celfyddydol Eisteddfod yr Urdd
Bethan Walkling

Trefnyddion Eisteddfod yr Urdd
Gethin Page
Owain ap Myrddin
Sian Edwards

Rheolwr Nawdd a Phartneriaethau
Nannon Evans

Swyddog Gweinyddol
Lois Wynne Jones

Trefnydd Cwmni Theatr Ieuenctid
Branwen Davies

Rheolwr Maes
Sarah Cole

Tîm Adran Gyfathrebu a Datblygu

Cyfarwyddwr
Elinor Dafydd

Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu
Branwen Dafydd

Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
Ceri Williams

Swyddog Marchnata Digidol
Ffion Mair Pirotte

Cadeiryddion Paneli Canolog Eisteddfod yr Urdd

Celf, Dylunio a Thechnoleg	Tomos Sparnon
Cerdd Dant	Eirian M. Jones
Cerddoriaeth	Patric Stephens
Dawns	Eleri Jones
Llefaru	Elin Williams
Theatr	Peter Davies
Dysgwyr	Lona Evans
Llenyddiaeth	Tegwen Bruce-Deans

Bwrdd y Celfyddydau

Alun Saunders, Aled Rosser, Carwyn Hawkins, Carys Edwards, Dai Baker, Elen Rhys, Elen Roach, Helen Medi, Patric Stephens, Peter Davies, Rhian Haf, Fflur Fychan, Manon Wyn Williams, Mel Owen

Swyddogion Eisteddfod Bro'r Wenynen 2027

Llywyddion Anrhydeddus
Helen Greenwood
Rhodri Harries
Lowri Jones
Ion Thomas
Jeanette Massocchi
Bronwen Green

Swyddogion Pwyllgor Gwaith 2027
Cadeirydd: Elin Maher

Is-gadeiryddion
Catrin Passmore, Lona Jones-Campbell, Naomi Joyce-Pleece, Osian Rowlands, Peredur Owen Griffiths

Is-gadeiryddion Ifanc
Efa Maher, Mali Jones

Ysgrifennydd Rachel Howells
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid
Aidan Maher, Tomos Rodrigues

Swyddogion Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Prif Weithredwr Sian Lewis
Cadeirydd Nia Bennett
Cadeirydd Bwrdd y Celfyddydau Arwel Gruffydd

Ymddiriedolwyr

Nia Bennett, Gemma Cutter, Dyfrig Davies, Mari Emlyn, Delyth Evans, Nia Haf, Jim O'Rourke, Deio Owen, Emily Pemberton, Aled Walters, Abigail Williams, Llywelyn ap Gwilym, Nia Morgan, Arwel Gruffydd

Llywyddion Anrhydeddus
Wynne Melville Jones, Siôn Edwards, Rhiannon Lewis

Cyfeiriadau Cyhoeddwyr

ABRSM
4 London Wall Place,
London, EC2Y 5AU
020 7636 5400
abrsm.org
abrsm@abrsm.ac.uk

Atebol
Adeiladau'r Fagwyr
Llandre, Aberystwyth
01970 832172
atebol.com

Barddas
Bethany Celyn
barddas.cymru
bethany@barddas.cymru

Cyhoeddiadau Curiad
Uned 6 a 9 Capel Salem, Ffordd Bryncelyn,
Talysarn, Caernarfon LL54 6AB
01286 882166
curiad.co.uk
curiad@curiad.co.uk

Cwmni Cyhoeddi Gwynn
Canolfan Sain, Llandwrog,
Caernarfon, Gwynedd, LL54 5TG
01286 831111
gwynn.co.uk
gwynn@gwynn.co.uk

Cyhoeddiadau Sain
Canolfan Sain, Llandwrog,
Caernarfon,
Gwynedd LL54 5TG
01286 831111
sainwales.com
sain@sainwales.com

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Copïau ar gael drwy eich siop lyfrau lleol.
Os oes anhawster, cysylltwch â Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth SY23 2HX
rhcgriffiths@btinternet.com

Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
John Eifion Jones a Marina Bryn Jones
Tyddyn Arthur, Y Waun,
Penisarwaun, Caernarfon,
LL55 3PN
01286 872488 /
cerdd-dant.org
cerdd.dant.cymru@gmail.com

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru
Palas Print, 10 Palace Street,
Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR
01286 674631

Faber
01279 828988
fabermusicstore.com
support@fabermusic.com

Gwasg y Bwthyn
Tŷ Cadnant, Parth 2, Lôn Hen Felin, Cibyn,
Caernarfon LL55 2BD
01286 672018
gwasgybwthyn@btconnect.com

Gwasg Carreg Gwalch
12 Iard yr Orsaf, Llanrwst, Conwy
LL26 0EH
01492 642031
carreg-gwalch.cymru
llanrwst@carreg-gwalch.cymru

Gwasg Gee Isfryn
Llanllechid, Bethesda, Gwynedd,
LL57 3LB
07765 400140
gwasggee@gmail.com

Gwasg Gwynedd
Hafryn Llwyn Hudol, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 5YE
01758 612483
cyhoeddi@gwasggwynedd.com

Hal Leonard
020 7395 0382
halleonard.com
sales@halleonardeurope.co.uk

Novello Chester Music and Novello & Co
14-15 Berners Street, London,
W1T 3LJ
020 7612 7400
musicsalesclassical.com
promotion@musicsales.co.uk

Oxford University Press
Great Clarendon Street, Oxford,
OX2 6DP
01536 452657
www.oup.com
onlinequeries.uk@oup.com

Shawnee Press
+1 800-962-8584
www.shawneepress.com
info@shawneepress.com

Snell a'i Feibion
68 West Cross Lane, West Cross,
Abertawe, SA3 5LU
01792 405727 snelldavies@
btinternet.com

Tŷ Cerdd
enquiries@tycerdd.org
www.tycerddshop.com/
collections/ sheet-music/
collection_eisteddfod-yr-
urdd-2026

Urdd Gobaith Cymru
Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn,
Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
01678 541014
urdd.cymru eisteddfod@urdd.org

Y Lolfa Talybont
Ceredigion SY24 5AP
01970 832304
ylolfa.com
ylolfa@ylolfa.com

Clic!
Gallwch glicio ar unrhyw un o'r adrannau yn y rhestr cynnwys i fynd yn syth at yr adran berthnasol.

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

Cerddoriaeth: Lleisiol....14
Cerddoriaeth: Canu Gwerin....20
Cerddoriaeth: Offerynnol....22
Cerddoriaeth: Band/Artist Unigol....29
ADY: Anghenion Dysgu Ychwanegol....30
Cerdd Dant....30
CogUrdd....34
Dawnsio Gwerin....35
Dawns....38
Llefaru....41
Siarad Cyhoeddus....43
Theatr....44
Trin Gwallt a Harddwch....49

Cerddoriaeth: Lleisiol

Dyddiad cau cofrestru: 3 Chwefror 2027

1	**Unawd Bl.2 ac iau**	**'Bwrw glaw', J.Glyn Davies** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod Cywair: E♭ fwyaf .
2	**Unawd Bl.3 a 4**	**'Lliwiau'r Hydref', Gilmor Griffiths** *Hwyl ar y gân, Y Lolfa* Cywair: E♭ fwyaf (C ↗ E♭') Cywair: C fwyaf (A, ↗ C') Copi yn C ar werth o Adran yr Eisteddfod.
3	**Unawd Bl.5 a 6**	**'Meddyliau Plentyn', R.J. Evans** Cywair: A fwyaf (F# ↗ E') – y copi gwreiddiol Cywair: F fwyaf (D ↗ C') Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod.
4	**Unawd Bl.6 ac iau (D)**	**'Dewch am dro!', Rhodri Harries** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod
5	**Deuawd Bl.6 ac iau**	**'Helen', J. Eirian Jones** *Cynghanedd Cariad, Y Lolfa*
6	**Parti Unsain Bl.6 ac iau (Ad)**	**'Joio yn y Jamborî', Rhodri Harries a Rhys Harries** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod Dim mwy na 12 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol at y piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
7	**Parti Unsain Bl.6 ac iau (D)**	**'Mawrth y Cyntaf', Robat Arwyn** *Miwsig y Misoedd, Y Lolfa* Dim mwy na 12 mewn nifer.
8	**Côr Unsain Bl.6 ac iau (Ad)**	**'Mishimba Mishamba', D. Tawe Jones** *Banks YS1394* 13–25 mewn nifer. Caniateir dewis nodau ym marrau 11, 17, 34, 46 a 47.

9	**Parti Unsain Bl.6 ac iau (Ysgolion â hyd at 50 o blant) (YC)**	**'Pum Darn o Ffrwyth', Rhodri Harries** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod Dim mwy na 12 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol at y piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
10	**Parti Unsain Bl.6 ac iau (Ysgolion â dros 50 o blant rhwng 4–11 oed) (YC)**	**'Siôn yn Jêl', Mansel Thomas** *Cwmni Cyhoeddi Gwynn* Dim mwy na 12 mewn nifer. *Ci drygionus yw Siôn!*
11	**Parti Deulais Bl.6 ac iau (YC/Ad)**	**'Nos Da Nawr', Catrin Edwards (tr. Ann Hopcyn)** *Cyhoeddiadau Sain* 12–16 mewn nifer.
12	**Côr Bl.6 ac iau (Ysgolion â hyd at 150 o blant rhwng 4–11oed) (YC)**	**'Mae gen i saith o bethau', Eirlys Gravelle** *Cantabile, Curiad* 13–25 mewn nifer.
13	**Côr Bl.6 ac iau Ysgolion â rhwng 151 a 300 o blant rhwng 4–11 oed) (YC)**	**'Ni yw Gwent', Ann Hopcyn ac Aneirin Karadog** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod 20–40 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
14	**Côr Bl.6 ac iau (Ysgolion â dros 301 o blant rhwng 4–11 oed) (YC)**	**'Ffynnon Ffydd', Caryl Parry Jones (tr. Osian Rowlands)** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod 20–40 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
15	**Côr Bl.6 ac iau (YC/D)**	**'Yn Eisteddfod yr Urdd', Eric Jones** *Hwyl a Hoe, Curiad (1057)* 20–40 mewn nifer.

16	**Ensemble Lleisiol Bl.6 ac iau (YC/Ad)**	**Hunan-ddewisiad di-gyfeiliant** 3–8 mewn nifer. Un gân i'w chanu yn y Gymraeg heb fod yn hwy na 3 munud Caniateir dyblu lleisiau. Ni chaniateir arweinydd. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
17	**Unawd Merched Bl.7, 8 a 9**	**'Gwanwyn' ('*Spring*'), Morfydd Llwyn Owen** *Cwmni Cyhoeddi Oriana* Cywair: F fwyaf (C ↗ F') Cywair: D fwyaf (A, ↗ D')
18	**Unawd Bechgyn Bl.7, 8 a 9**	**'Mae gen i ddafad gorniog', Mansel Thomas** *Cwmni Cyhoeddi Gwynn* Cywair: A leiaf (E ↗ E') Cywair: F leiaf (C ↗ C') Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri.
19	**Deuawd Bl.7, 8 a 9**	**'Nos Da', Mai Jones** *Ascherberg 11829*
20	**Unawd S/A Bl.10 a dan 19 oed**	**Naill ai:** **'Tawel Nawn' ('*Silent Noon*'), R. Vaughan Williams** *Edwin Ashdown Ltd (Hal Leonard)* *Geiriau Cymraeg: Cynan* *Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod.* Cywair: F fwyaf (D ↗ F') Cywair: D♭ fwyaf (B♭ ↗ D♭') **neu:**
21	**Unawd T/B Bl.10 a dan 19 oed**	**'Y Lôn i Lan-ar-li' ('*Linden Lea*'), R. Vaughan Williams** *Boosey & Hawkes* *Geiriau Cymraeg: T.H. Parry Williams* *Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod.* Cywair: A fwyaf (E ↗ F♯') B&H 2845 Cywair: F fwyaf (C ↗ D') B&H 2843 **Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol.** **Yr un yw'r darnau prawf ar gyfer cystadlaethau 20 a 21.** **Cyflwynir Ysgoloriaeth Mrs Olwen Phillips a rhodd Capel Cymraeg Melbourne, Awstralia i'r unawdydd mwyaf addawol rhwng Bl.10 ac 19 oed (cystadlaethau 20–21).**

22	**Deuawd Bl.10 a dan 19 oed**	**'Noswyl', Geraint Cynan a Caryl Parry Jones** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod
23	**Unawd 19–25 oed**	**Lleisiau Uwch – naill ai:** **'Gweddi y Pechadur', Morfydd Llwyd Owen** *Snell a'i Feibion* Cywair: F leiaf (C ↗ A♭') **neu:** **'Cân Bachgen', Mansel Thomas** *Cwmni Cyhoeddi Gwynn* Cywair: E fwyaf (E ↗ E') **neu:** **'Gwynfyd', Meirion Williams** *Tŷ Cerdd* Cywair: E fwyaf (B, ↗ E') **Lleisiau Is – naill ai:** **'I Fair y Gofidiau' ('*To Our Lady of Sorrows*'), Morfydd Llwyd Owen** *Cwmni Cyhoeddi Oriana* Cywair: B leiaf (A#, ↗ D#') **neu:** **'Y Bardd', Mansel Thomas** *Cwmni Cyhoeddi Gwynn (5033)* Cywair: A leiaf (E ↗ F') **neu:** **'Y Llyn', Meirion Williams** *Tŷ Cerdd* Cywair: E fwyaf (E ↗ E') ---------- **Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol gan gadw at y cyweiriau a nodwyd uchod.** **Caniateir i'r bob cystadleuydd yr Unawd 19-25 oed ddod â chyfeilydd ei hun - gweler Rheolau Lleisiol.**
24	**Parti Deulais Bl.9 ac iau (Ad)**	**'Hwiangerdd Mabon', Héctor MacDonald ac Esyllt Nest Roberts** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod Dim mwy na 16 mewn nifer.
25	**Côr Bl.9 ac iau (Ad)**	**'Cymru', Martyn Geraint (tr. Betsan Perret)** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod 17–30 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.

26	**Parti Merched Bl.7, 8 a 9**	**'Ymlaen â'r Gân', Robat Arwyn** *Gwin Beaujolais, Y Lolfa* 12–16 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
27	**Parti Bechgyn Bl.7, 8 a 9**	**'I'r Gad', Hefin Elis (tr. Wayne Beecham)** *Cyhoeddiadau Sain* 12–16 mewn nifer. Gellir ffurfio Parti o leisiau trebl neu Barti o leisiau sydd wedi torri, ond ni ddylid eu cyfuno mewn un Parti Bechgyn. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
28	**Côr S.A. Bl.7, 8 a 9**	**'Canu'r Dydd a Nos', Alan Llewelyn Thomas** *Curiad (2094)* 20–40 mewn nifer. Cystadleuaeth ar gyfer lleisiau Soprano ac Alto yw hon (yn unig). Mae cyfle i'r bechgyn sydd â'u lleisiau wedi torri i ganu yn y Côr TB neu'r Côr SATB Bl.13 ac iau.
29	**Côr S.A. Bl.13 ac iau**	**'Y Sir a Garwn Ni' ('*Rhondda Rhapsody*'), Mai Jones** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod *Geiriau Cymraeg: Rita Milton Jenkins* 10–20 mewn nifer. Cenir '*a rhown i Gymru*' yn lle '*rhown i Forgannwg*' (bob tro).
30	**Côr T.B. Bl.13 ac iau**	**'Blodwen a Meri', Ryan Davies (tr. Jeffrey Howard)** Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod 10–20 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.

31	**Côr Bl.13 ac iau (D)**	**'Benedictus', Robat Arwyn** *Curiad* 20–40 mewn nifer. Côr SATB – Curiad 3137 Côr SA neu TB – Curiad 9033 Copi SATB (barrau 45-70) – dylai'r Soprano & Tenor gyfenwid rhannau. **neu:** Caniateir i Gorau SATB ddilyn y copi SA gan ddyblu'r lleisiau (S&T, A&B) o'r dechrau i'r diwedd. Caniateir ffurfio Côr SATB a / neu Gôr SA a / neu Gôr TB (gan ddefnyddio'r copi SA). Gall Ysgol gystadlu â sawl côr gan gofio na ddylai neb ganu mewn dau gôr yn yr un gystadleuaeth.
32	**Côr S.A.T.B. Bl.13 ac iau**	**'Yma i aros', Eric Jones** *Curiad (3214)* 20–40 mewn nifer.
33	**Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad digyfeiliant** 3–6 mewn nifer. Un gân i'w chanu yn y Gymraeg heb fod yn hwy na 3 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir Arweinydd. Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 33 a 35. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
34	**Ensemble Lleisiol Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad digyfeiliant** 3–6 mewn nifer. Un gân i'w chanu yn y Gymraeg heb fod yn hwy na 3 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir Arweinydd. Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 34 a 35. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

35	**Ensemble Lleisiol 14–25 oed (Ae)**	**Hunan-ddewisiad digyfeiliant** 3–6 mewn nifer. Un gân i'w chanu yn y Gymraeg heb fod yn hwy na 3 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir Arweinydd. Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 33, 34 a 35. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
36	**Côr S.S.A. 14–25 oed (Ae)**	**'Pa Fab yw hwn' ('*What Child is this*'), Robert Smith** *Roberton (75050) (Good Music) Geiriau Cymraeg: Gwyn Thomas* **Geiriau Cymraeg ar gael o wefan yr Urdd.** 16–30 mewn nifer. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.
37	**Côr T. T. B 14–25 oed (Ae)**	**'Dros ein gwlad' ('*We'll keep a welcome*'), Mai Jones (tr. Jeffrey Howard)** **Copi ar werth o Adran yr Eisteddfod** *Geiriau Cymraeg: Tudur Dylan Jones* 16–30 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a ferniedir. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Cylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.
38	**Côr S.A.T.B. 14–25 oed (Ae)**	**'Ein Halaw Ni', Ruth Lloyd Owen** *Cyhoeddiadau Sain* Dim mwy na 40 mewn nifer. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Cylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.

39	**Côr S.A.T.B 14–25 oed (Ae)**	**'Barcud yn y Gwynt', Robat Arwyn** *Curiad (3240)* Dros 40 mewn nifer. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Cylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 3ydd o Fawrth.

Cerddoriaeth: Canu Gwerin

Dyddiad cau cofrestru: 3 Chwefror 2027

40	**Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau**	**'Hen Wraig Fach', gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans** *Caneuon Gwerin i Blant, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol
41	**Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.7, 8 a 9**	**'Cobler Coch o Hengoed', gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans** *Canu'r Cymry 1 a 2, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol
42	**Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.10 a dan 19 oed**	**'Ar Ben Waun Tredegar' gol. D. Geraint Lewis a Delyth Hopkins Evans** *Cân Di Bennill, Y Lolfa/Gomer* **neu:** **'Gyrru'r Ychen', gol. D. Geraint Lewis a Delyth Hopkins Evans** *Cân Di Bennill, Y Lolfa/Gomer* I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol.
43	**Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19–25 oed**	**'Cariad Cywir' a Hunan-ddewisiad** *Caneuon Traddodiadol y Cymry (argraffiad diwygiedig), Cwmni Cyhoeddi Gwynn* I'w canu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio y darn hunan-ddewisiad.
44	**Côr Gwerin Tri Llais Bl.13 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dim mwy na 40 mewn nifer. Heb fod yn hwy na 3 munud Un gân ddigyfeiliant, gyda mwyafrif y trefniant yn dri llais. Dylai arddull y trefniant fod yn werinol naturiol yn hytrach nag yn arddull glasurol, pop, sioe neu jazz ayyb. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerddoriaeth Lleisiol a Chanu Gwerin

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Cymraeg yw iaith pob darn prawf a hunan-ddewisiad.

2 Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol nac ychwaith newid cyweirnod unrhyw gystadleuaeth, oni nodir yn wahanol.

3 Ni chaniateir i lais unigol ganu mewn darn parti neu gôr: os oes cyfeiriad at unawd ar y copi neu fod rhywun yn "dweud rhywbeth" yna rhaid i'r holl adran ganu'r nodau/geiriau hynny, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.

4 Ni chaniateir i gyfeilydd addasu neu newid arddull y cyfeiliant piano: rhaid cadw at y copi.

5 Rhaid i unigolion, partïon a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu nifer y penillion a nodir yn y Rhestr Testunau.

6 Rhaid i bartïon a chorau ddod â'u cyfeilyddion ac arweinyddion eu hunain.

7 Caniateir i bob cystadleuydd yr Unawd 19–25 oed ddod â chyfeilydd ei hun.

8 Lle mae hunan-ddewisiad, rhaid uwchlwytho copi cyflawn wrth gofrestru ar-lein. Mae copi cyflawn yn cynnwys yr holl rannau o dan ei gilydd mewn sgôr ac mewn un ddogfen PDF yn hytrach na chyfres o luniau ffôn. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.

9 Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, (yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano) yng nghystadlaethau rhifau 6, 9. 13, 14, 25, 26, 27, 30, 37, 38, 39. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirniedir. Ni chaniateir ychwanegu offerynnau yn y cystadlaethau eraill, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.

10 Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw, boed yn drac neu'n guriad ar beiriant electronig, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.

11 Gwerin – Dylid parchu mydr naturiol y geiriau sy'n gallu amrywio o bennill i bennill. Gweler y Canllawiau Gwerin ar wefan yr Urdd.

12 Amseru Darnau Hunan-ddewisiad – dechreuir amseru o nodyn cyntaf y perfformiad (nid yw hwn yn cynnwys gosod nodyn a chanfod traw).

Beirniaid Lleisiol: I'w cadarnhau

Cyfeilyddion: I'w cadarnhau

Beirniad Gwerin: I'w cadarnhau

Cerddoriaeth: Offerynnol

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ionawr 2027

45	**Unawd Telyn Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
46	**Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

47	**Unawd Gitâr Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Gweler Rheolau a Manylion Cystadlaethau Offerynnol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
48	**Unawd Chwythbrennau Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
49	**Unawd Pres Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
50	**Unawd Piano Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
51	**Unawd Offer Taro Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 3 munud. Gweler Rheolau Offerynnol ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
52	**Parti Recorder Bl.6 ac iau**	**'Awdl o Lawenydd' (o'r 9fed Symffoni)** **Beethoven** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod **a** **Hunan-ddewisiad cyferbyniol** **teiran neu fwy** Dim hwy na 16 mewn nifer. Y cyfan heb fod yn hwy na 3 munud Rhaid darparu copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol). Gellir cynnwys recorders gwahanol. Caniateir arweinydd. Ni chaniateir cyfeilydd. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio'r darn hunan-ddewisiad.

53	**Ensemble Offerynnol Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** 3–10 mewn nifer Heb fod yn hwy na 3 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir Parti Recorder. Caniateir triawd piano (ar yr un offeryn). Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn (gweler Rheolau Offerynnol). Os oes rhywun yn troi tudalennau'r pianydd, yna dylai fod yn ddisgybl o fewn oedran y gystadleuaeth hon. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
54	**Cerddorfa/Band Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dros 10 mewn nifer Heb fod yn hwy na 3 munud Caniateir unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio Parti Recorder. Caniateir hyd at dri munud i osod a thiwnio. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol). Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
55	**Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Bl.6 ac iau**	**'Terfysg y Siartwyr'** Unrhyw nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud. Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol. Unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio Parti Recorder. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Disgwylir i bob grŵp fod yn barod i berfformio'n syth ar ôl cyrraedd y llwyfan.
56	**Unawd Telyn Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
57	**Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
58	**Unawd Gitâr Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud Gweler Rheolau Offerynnol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

59	**Unawd Chwythbrennau Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
60	**Unawd Pres Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
61	**Unawd Piano Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
62	**Unawd Offer Taro Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud. Gweler Rheolau Offerynnol ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
63	**Ensemble Offerynnol Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** 3–10 mewn nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau 56–62 gan yr un cystadleuwyr. Caniateir triawd piano (ar yr un offeryn). Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol). Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio. Os oes rhywun yn troi tudalennau'r pianydd, yna dylai fod yn ddisgybl o fewn oedran y gystadleuaeth hon.
64	**Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
65	**Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

66	**Unawd Gitâr Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud Gweler Rheolau Offerynnol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
67	**Unawd Chwythbrennau Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
68	**Unawd Pres Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
69	**Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
70	**Unawd Offer Taro Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Gweler Rheolau Offerynnol ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
71	**Deuawd Offerynnol Bl.13 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 4 munud Ni chaniateir perfformio yr un darn/au yn y cystadlaethau unigol (45–51) (56–62) (64–70). Cystadleuaeth ar gyfer dau berson yn unig yw hon. Ni chaniateir ee. dau ffliwt a chyfeiliant piano (dyweder). Os yn dewis offeryn a phiano neu delyn, rhaid sicrhau darn addas, gyda'r ddau offeryn yn derbyn yr un sylw o ran y deunydd thematig. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

72	**Ensemble Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. 3–10 mewn nifer. Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o offerynnau. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau (64–71) gan yr un cystadleuwyr. Caniateir triawd piano (ar yr un offeryn). Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol). Rhaid i holl aelodau 'Ysgol' fod yn ddisgyblion yr ysgol honno. Os oes rhywun yn troi tudalennau'r pianydd, yna dylai fod yn ddisgybl o fewn oedran y gystadleuaeth hon. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
73	**Unawd Offerynnol 19–25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Heb fod yn hwy na 6 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
74 75	**Cerddorfa dan 19 oed** **Band dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim llai na 10 mewn nifer. Heb fod yn hwy nag 8 munud Caniateir hyd at 5 munud i diwnio. Caniateir arweinydd. Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol rhif 7). Rhaid i holl aelodau y Band / Cerddorfa Ysgol fod yn ddisgyblion yn yr ysgol honno. Caniateir defnyddio'r llais yn achlysurol i ganu ambell air neu gymal (yn y Gymraeg), ond rhaid cofio taw cystadleuaeth offerynnol yw hon. Cynhelir y ddwy gystadleuaeth gyda'i gilydd. Rhaid i 'Gerddorfa' gynnwys adran sylweddol o offerynnau llinynnol. Ystyrir pob grŵp arall yn 'Fand'. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerddoriaeth Offerynnol

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Rhaid i bob cystadleuydd berfformio'r un darn/au ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

2 Rhaid i'r perfformiad gadw o fewn y terfyn amser a dylid amseru o'r nodyn cyntaf (yr unawdydd neu'r cyfeilydd) i'r nodyn olaf gan gynnwys unrhyw fylchau sydd rhwng symudiadau neu ddarnau. Gweler Rheol Eisteddfod rhif 28.

3 Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw, boed yn drac neu'n gyfeiliant ar beiriant electronig ac eithrio'r cystadlaethau Unawd Gitâr ac Offer Taro lle caniateir traciau offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Ni ddylai'r trac hwn gynnwys y rhan a berfformir gan y cystadleuydd.

4 Caniateir i'r unawdwyr gitâr a drymiau ddefnyddio'r trac ymarfer ('click track') yn yr oedrannau iau (Cynradd / Bl. 7, 8 a 9) ond dylid annog cystadleuwyr i fentro hebddo os yn bosib. Ni chaniateir defnyddio'r clic hwn yn yr oedrannau hŷn (Bl.10 i 13 ac 19–25 oed).

5 Rhaid uwchlwytho copi cyflawn o'r darn hunan-ddewisiad wrth gofrestru ar-lein. Y mae copi cyflawn yn cynnwys yr holl rannau o dan ei gilydd mewn sgôr ac mewn un ddogfen PDF yn hytrach na chyfres o luniau ffôn. Mae nifer o ddarnau gan yr artistiaid canlynol ar yr 'excluded works list' felly gwyliwch cyn dewis darn gan ABBA, Michael Jackson, Beatles, Prince, U2, Queen, Rolling Stones, Bruno Mars, Taylor Swift, Dua Lipa, Bon Jovi.

Unawd Offer Taro – Gall drymwyr yn yr Unawd Offer Taro ddarparu cynllun manwl (ar bapur) sy'n amlinellu prif nodweddion y perfformiad o adran i adran, yn hytrach na darparu copi cerddorol neu sgôr o'r gerddoriaeth.

Ensemble / Band / Cerddorfa – Disgwylir i bob ensemble, band neu gerddorfa ddarparu sgôr gyflawn o'u cerddoriaeth. Y mae sgôr yn cynnwys rhan pob offeryn o dan ei gilydd – nid set o gopïau offerynnau unigol.

6 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.

7 **Drymiau** – Bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer llwyfan pob pafiliwn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac ar lwyfan yr Unawd Offer Taro. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hun. Serch hynny, bydd rhaid i chi ddod â'ch drymiau chi i'r Eisteddfod Cylch / Rhanbarth.

Tympanau – Bydd yr Urdd yn darparu 3 tympan ar gyfer cystadleuaeth y cerddorfeydd os oes cais yn dod (trwy Swyddfa'r Urdd) erbyn Mawrth 3ydd – os nad ydych yn gwneud hynny, fydd yr Urdd ddim yn gallu eu darparu.

Piano – Un piano yn unig sydd ym mhob pafiliwn a hynny ar ochr chwith y llwyfan o safbwynt y gynulleidfa. Nid oes hawl ei symud i'r ochr arall.

8 Yr offerynnau yn yr Unawd Llinynnol yw'r ffidl, fiola, 'cello a'r bas dwbl; mae'r Unawd Gitâr yn cynnwys y gitâr acwstig, trydan a bas, banjo, iwcalili a'r mandolin.

Beirniaid

Telyn: I'w cadarnhau

Llinynnol: I'w cadarnhau

Chwythbrennau: I'w cadarnhau

Pres: I'w cadarnhau

Piano: I'w cadarnhau

Gitâr: I'w cadarnhau

Offer Taro: I'w cadarnhau

Ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol: I'w cadarnhau

Cerddoriaeth Greadigol: I'w cadarnhau

Cerddoriaeth: Band/Artist Unigol

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

76	**Band/Artist Unigol Bl.6 ac iau**	**Dylid cyflwyno naill ai:** a) Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig **neu** b) Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.
77	**Band/Artist Unigol Bl.7–13**	**Dylid cyflwyno naill ai:** a) Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig **neu** b) Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.
78	**Band Gwerin Bl.7–13**	Trefniant gwreiddiol o gerddoriaeth werin. Cân / caneuon gwerin, alaw / alawon dawns traddodiadol Cymreig Band Gwerin Offerynnol neu Fand Gwerin Offerynnol â llais/lleisiau. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Band/Artist Unigol

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn 3 Mawrth.
2. Disgwylir i bob band / artist unigol uwchlwytho trac sain a geiriau o'r gân wrth gofrestru. Bydd y beirniaid yn dewis pump i ymddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mhob cystadleuaeth.
3. Mae'n rhaid i bob cystadleuydd, gan gynnwys y cyfeilyddion, fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
4. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler 'Hunan-ddewisiad a Hawlfraint' Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.
5. Ni chaniateir defnyddio traciau cefndir na churiad trydanol (e.e. ar allweddellau).
6. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Bydd yr Urdd yn darparu amps a set o ddrymiau. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Danfonir e-bost at bob band gyda rhestr o'r offer cerddorol sydd ar gael i'w benthyg yn ystod y perfformiad.
7. Ni chaniateir perfformio trefniant o gân Gymraeg gyfoes / wreiddiol mae'r unigolyn/band eisoes wedi ei chyhoeddi.

ADY: Anghenion Dysgu Ychwanegol

Dyddiad cau cofrestru: 3 Chwefror 2027

79	**Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol, Cymedrol a PMLD)**	**'Afonydd'** Unrhyw nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud. **Naill ai:** a) Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol ar y thema uchod. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. **neu:** b) Perfformiad lleisiol neu/ac offerynnol o'r gân 'Robin Ddiog' (unrhyw drefniant). Caniateir arweinydd. Cynhelir rhagwrandawiadau yn y Sir/Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Dyddiad cau: 3 Chwefror.
80	**Dawns neu berfformiad theatrig i grŵp i Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol, Cymedrol a PMLD)**	**'Afonydd'** Unrhyw nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud. **Naill ai:** a) Dawns greadigol ar y thema uchod. Caniateir arweinwyr i gynorthwyo'r dawnswyr. **neu:** b) Perfformiad theatrig ar y thema uchod. Hyd at 4 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio'r llwyfan. Cynhelir rhagwrandawiadau yn y Sir/Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Dyddiad cau: 3 Chwefror.
81	**Perfformiad unigol dan 25 i ddisgyblion ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol, Cymedrol a PMLD)**	Heb fod yn hwy na 2 funud. Perfformiad unigol gall gynnwys canu, llefaru, dawnsio, actio, dangos dawn neu stand up (neu gyfuniad o'r uchod). Cynhelir rhagwrandawiadau yn y Sir/Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Dyddiad cau: 3 Chwefror.

Cerdd Dant

Dyddiad cau cofrestru: 3 Chwefror 2027

82	**Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac iau**	**'Gweithwyr y Jyngl', Dyfan Roberts** *Odl a Chodl, Y Lolfa* Cainc: 'Codiad yr Ehedydd' (122), Mona Meirion *Bedw Gwynion, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru*
83	**Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4**	**'Cerdd Dant', Dyfan Roberts** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Manon' (122), Nan Elis *Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd*

84	**Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6**	**'Breuddwydio', Mared Jones** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Maen y Wern' (11222), Owain Siôn *Ceinciau Penyberth, Urdd Gobaith Cymru* .
85	**Deuawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau**	**'Caraf yr Haul', Gwen F. Smith efel. John Gwilym Jones** *Rhif 122 Caneuon Ffydd, Cymdeithas Caneuon Ffydd* Cainc: 'Hyd y Llwybr' (122), Bethan Bryn *Lobsgows, Curiad* Rhaid cyplysu i dri phennill.
86	**Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (YC)**	**'Problemau Bach', Myrddin ap Dafydd** *Tafodau Symudol, Gwasg Carreg Gwalch* Cainc: 'Cadi' (1122), Mari Watkin *Na Joio, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru* Rhaid hepgor pennill 3
87	**Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (D)**	**'Ymson Mot y Ci', T Llew Jones** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Pen Dinas' (1122), Elsbeth M Jones *Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod* Dim mwy na 12 mewn nifer. Mae rhyddid i ddefnyddio gosodiad personol, neu mae gosodiad ar gael o Adran yr Eisteddfod pe dymunir. Gweler rheolau cystadlu'r dysgwyr ar dudalen 8 y Rhestr Testunau.
88	**Côr Cerdd Dant Bl.6 ac iau (YC/Ad)**	**'Dan y don', Emrys Roberts** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Beuno' (122), Gwennant Pyrs *Dwynwen a Cheinciau Eraill, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru* Dim mwy na 30 mewn nifer.
89	**Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) (Ad)**	**'Tymhorau Miss', Gwyn Morgan** *Hen wragedd a Ffyn ac Eira Gwyn, Cerddi Lloerig, Gwasg Carreg Gwalch* Cainc: 'Hawys' (1122), Mona Meirion *Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd* Dim mwy na 12 mewn nifer. Rhaid hepgor pennill 4.

90	**Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9**	**'Telyn', Tudur Dylan Jones** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Enid' (122), Kim Lloyd Jones *Allwedd y Tannau 82, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru*
91	**Deuawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9**	**'Dychymyg', Lis Jones** *Byw a Bod yn y Bath, Gwasg Carreg Gwalch* Cainc: 'Maes Maelor' (122), Mair Carrington Roberts *Ceinciau'r Ffin, Cyhoeddiadau Curiad*
92	**Unawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed**	**Detholiad o 'Cysgodion', Robat Powell** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Maes Mawr' (1122), Kim Lloyd Jones *Cyhoeddiadau Curiad*
93	**Deuawd neu Driawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed**	**'Pethau Iolo Morganwg', Myrddin ap Dafydd** *Stori Cymru, Gwasg Carreg Gwalch* Cainc: 'Maes y Caerau (1122), Einir Wyn Jones *Ceinciau'r Heli, Cyhoeddiadau Sain* Rhaid hepgor pennill 4
94	**Grŵp Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed**	**'Colli Iaith', Harri Webb** *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif, Y Lolfa / Gwasg Gomer* Cainc: 'Aran Benllyn 2' (11222), Gwennant Pyrs Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod 4–8 mewn nifer.
95	**Grŵp Cerdd Dant 19–25 oed**	**'Ynys', Gwyneth Lewis** *Yr Awen Drwy'r Storïau, Cyhoeddiadau Barddas* Cainc: 'Y Dyffryn' (122), Mari Watkin *Ceinciau'r Ifanc, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru* 4–8 mewn nifer. Rhaid cyplysu pennill 2 a 3. *Bydd corfaniad enghreifftiol ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod*
96	**Unawd Cerdd Dant 19–25 oed**	**'Cragen', Non Lewis** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Tannau Tawe' (112212), Elfair Jones *Alaw Tawe, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru*

97	**Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19–25 oed**	**Detholiad penodol o 'Hiraeth', traddodiadol, (Cân Werin draddodiadol heb awdur)** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod Cainc: 'Rita' (1122), Bethan Bryn *Stelcian, Curiad*
98	**Parti Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9**	**'Y Nos yng Nghaer Arianrhod', Caryl Parry Jones** *Yr Awen Drwy'r Storïau, Cyhoeddiadau Barddas* Cainc: 'Tirmynach' (1122), Heledd Ann Hall *Tonnau'r Tannau, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru* Rhaid defnyddio'r gytgan fel pennill 4. Dim mwy na 20 mewn nifer.
99	**Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Ad)**	**'Hŷn na'r Coed', Robin Llwyd ab Owain** *Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod* Cainc: 'Atsain' (122), Bethan Bryn *Lobsgows, Cyhoeddiadau Curiad* Dim mwy na 20 mewn nifer.
100	**Côr Cerdd Dant Bl.13 ac iau**	**'Fy Ngwlad', Gerallt Lloyd Owen** *Cerddi'r Cywilydd, Gwasg Gwynedd* Cainc: 'Llwyn Hudol' (1122), Nan Elis *Bro Mebyd, Gwasg Gwynedd* Dim mwy na 30 mewn nifer.
101	**Parti Cerdd Dant 14–25 oed (Ae)**	**'Yr Ysgwrn', Myrddin ap Dafydd** *Stori Cymru, Gwasg Carreg Gwalch* Cainc: 'Gwenllian' (1122), Gwennant Pyrs *Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru* Dim mwy na 20 mewn nifer.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerdd Dant

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Mae canllawiau gosod ar gyfer cystadlaethau'r adran hon ar gael trwy gysylltu â Chymdeithas Cerdd Dant Cymru. www.cerdd-dant.org
2. Dilynwch drefniant pob cainc a nodir yn y Rhestr Testunau. Gellir ychwanegu triniaeth offerynnol â/neu leisiol at y gainc, ond ni chaniateir i unrhyw offeryn heblaw'r delyn/telynau swyddogol chwarae'r trefniant llawn.
3. Rhaid i holl gystadleuwyr yr adran Cerdd Dant dderbyn gwasanaeth telynorion swyddogol yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol ar y llwyfan (gweler eithriad yng nghystadlaethau rhifau 86, 87, 88, 89, 98, 99, 100 a 101). Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gwasanaeth telynor i'r Eisteddfodau hyn, ond pe cyfyd anhawster fe ganiateir defnyddio piano. Rhaid sicrhau y bydd pob cystadleuydd yn perfformio o dan yr un amodau ym mhob achos. h.y. un cyfeilydd swyddogol ar gyfer y cystadleuaeth fel y nodwyd uchod.
4. Yng nghystadlaethau rhifau 86, 87, 88, 89, 98, 99, 100 a 101, rhaid defnyddio dwy delyn ar y llwyfan. Gall yr ail delyn naill ai fod o ddewis y cystadleuydd a'r telynor o dan 30 oed neu'r ail delynor swyddogol sydd a'i h/enw gyferbyn â'r gystadleuaeth. Ystyrir y defnydd o delynor ychwanegol at y ddwy delyn fel rhan o ensemble a rhaid iddynt, fel unrhyw offerynnwr arall a ddefnyddir fod o dan 30 oed. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sy'n canu.
5. Os dymunir newid cyweirnod gwreiddiol y gainc, dylid cyfyngu'r newid i dôn a hanner o'r naill ochr i'r cyweirnod gwreiddiol.
6. Dylai'r cystadleuydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu a chaniateir ymarfer un pennill.
7. Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa.
8. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler 'Hunan-ddewisiad a Hawlfraint' Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.
9. Mae rhyddid i'r gosodwyr / hyfforddwyr ddefnyddio cyfuniad o unsain, deulais, tri llais ayyb fel y mynnant, ar wahân i pan nodir Parti Unsain.

Beirniaid: I'w cadarnhau

Telynorion: I'w cadarnhau

CogUrdd

Dyddiad cau cofrestru: 21 Hydref 2026

102	**CogUrdd Bl.4, 5 a 6**
103	**CogUrdd Bl.7, 8 a 9**
104	**CogUrdd Bl.10 – Bl 13**
105	**CogUrdd 16–25 oed**
106	**PobUrdd Bl.4, 5 a 6**
107	**PobUrdd Bl.7 a dan 19 oed**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau CogUrdd a PhobUrdd

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Rhaid cofrestru pob cystadleuydd cyn cystadlu yng nghystadleuaeth CogUrdd. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru fydd 21 Hydref 2026
2. Cyfrifoldeb yr ysgol/gangen fydd cynnal rownd ysgol erbyn 21 Hydref 2026.
3. Trefnir dyddiad rownd rhanbarthol gan eich Swyddog Cymunedol lleol cyn 11 Rhagfyr 2026.
4. Darperir Pecyn Beirniaid pwrpasol gyda chanllawiau a ffurflen feirniadaeth i'ch cynorthwyo gyda threfnu'r rownd gyntaf. Os hoffech dderbyn copi, cysylltwch â'ch Swyddog Cymunedol lleol.
5. Dyddiad cau cofrestru ar gyfer CogUrdd 16-25 oed fydd 14 Rhagfyr 2026. Trefnir dyddiad rownd rhanbarthol gan Drefnydd Cynorthwyol Eisteddfod yr Urdd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Am fwy o fanylion, cliciwch ar y linc isod i weld y pecyn gwybodaeth.
6. Bydd pecyn gwybodaeth CogUrdd a PobUrdd ar gael o fis Medi ymlaen ar wefan Eisteddfod yr Urdd.

Pecyn Gwybodaeth CogUrdd

Pecyn Gwybodaeth PobUrdd

Pecyn Gwybodaeth CogUrdd 16–25 oed

Dawnsio Gwerin

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ionawr 2027

108	**Dawns Werin Bl.4 ac iau**	**'Dawns Caerleon' – ar alaw 'Llygoden yn y Felin'** *Hwyl y Ddawns Werin, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru*
109	**Dawns Werin Bl.6 ac iau (Ysgolion hyd at 100 o blant rhwng 4–11 oed)**	**'Parc Pontypool'** *Dawnsiau yr Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru*
110	**Dawns Werin Bl.6 ac iau (Ysgolion dros 100 o blant rhwng 4–11 oed ac Adrannau)**	**S'gwâr Casnewydd'** *Dawnsiau yr Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru*
111	**Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Cyflwyniad gan 2 neu fwy o ddawnswyr. Dim hwy na 3 munud. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
112	**Dawns Werin Bl.7, 8 a 9**	**'Pawb yn eu tro'** *Taflen Ffair Llangadfan, GIW*
113	**Dawns Werin Bl.10 a dan 19 oed**	**'Gwenynen Gwent'** *Dawnsiau yr Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru*

114	**Dawns Werin Bl.9 a dan 25 oed (Ae/UAd)**	**'Gŵyl Ifan' neu 'Dawns Flodau Nantgarw'** *Dawnsiau Nantgarw, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru* Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed, a phawb o dan 30 oed.
115	**Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.9 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 3 munud. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
116	**Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.9 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 3 munud. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
117	**Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.10 ac o dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 4 munud. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
118	**Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.10 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 4 munud. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

119	**Dawns Stepio Grŵp Bl 9 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 3 munud. Dawns ar gyfer 2 i 6 pherson gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3 Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
120	**Dawns Stepio Grŵp Bl 10 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 4 munud. Dawns ar gyfer 2 i 6 pherson gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 3. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
121	**Dawns Stepio Bl.7 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 4 munud. Cyflwyniad o ddawns draddodiadol a/neu gyfoes gan grŵp o ddawnswyr cymysg heb fod yn llai na 6 pherson mewn nifer yn defnyddio arddull, camau a phatrymau Cymreig. Caniateir diwyg gyfoes o ran gwisg a cherddoriaeth. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid i'r mwyafrif o aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawnsio Gwerin

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf neu nodyn cyntaf. Ni chaniateir i'r hyfforddwyr gerdded y dawnswyr i'w lle ar gychwyn cystadlaethau Dawns ar lwyfannau'r Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth nac ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

2 Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau.

3 Yn ychwanegol at y brif alaw, caniateir defnyddio unrhyw alawon traddodiadol Cymreig neu wreiddiol draddodiadol eu naws (oni nodir yn wahanol) a fyddo'n addas fel cyfeiliant. Rhaid cyflwyno rhestr o'r alawon hyn ar y Porth 10 diwrnod cyn y perfformiad cyntaf. Dylid cychwyn a gorffen pob Dawns Werin gyda'r alaw wreiddiol, oni nodir yn wahanol.

4 Os na nodir rhif penodol o ddawnswyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.

5 Disgwylir i bartïon ac unigolion wneud pob ymdrech i sicrhau cyfeiliant byw i'w dawns, ond caniateir defnyddio cerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw, oni nodir yn wahanol. Os bydd cydraddoldeb yn y dawnsio, yna fe ystyrir natur y cyfeiliant. Caniateir newid y cyweirnod.

6 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.

7 Disgwylir i'r gwisgoedd, gan gynnwys esgidiau, ychwanegu at awyrgylch a chyfanrwydd y cyflwyniad.

8 Wrth ffurfio partïon dawnsio gwerin, dylid glynu at gyfarwyddiadau'r ddawns o ran cyfansoddiad y parti.

9 Stepio – Rhaid sicrhau bod pob dawns stepio yn defnyddio stepiau ac arddull draddodiadol Gymreig. Dylid defnyddio alawon traddodiadol Cymreig, neu gerddoriaeth o naws draddodiadol Gymreig, oni nodir yn wahanol yng ngofynion y ddawns benodol. Rhaid i bob perfformiad gydymffurfio â'r terfynau amser a nodir yn rheolau'r gystadleuaeth berthnasol.

Beirniaid: I'w cadarnhau

Dawns

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ionawr 2026

122	**Dawns Greadigol Bl.6 ac iau** (YC/Ad)	**'Pont' / 'Pontydd'** Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
123	**Dawns Aml-Gyfrwng Bl.6 ac iau**	**'M4' / 'Y Draffordd'** Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud. Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull gyferbyniol. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
124	**Dawns Greadigol Bl.7 a dan 25 oed**	**'Afon' / 'Afonydd'** Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

125	**Dawns Aml-Gyfrwng Bl.7 a dan 25 oed**	**'Tŷ Tredegar'** Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 4 munud. Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull gyferbyniol. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
126	**Dawns Unigol mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin. Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 2 funud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
127	**Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Ni chaniateir propiau o unrhyw fath. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
128	**Dawns Unigol mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin. Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 2 funud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
129	**Grŵp HipHop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl. 7 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Ni chaniateir propiau o unrhyw fath. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
130	**Dawns Unigol Bl.10 a dan 19 oed mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin.**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 2 funud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
131	**Dawns Pâr neu Driawd mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 3 munud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio..
132	**Dawns Unigol 19–25 oed mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin.**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 2 funud. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Gall hyn gynnwys ballet/ tap/ dawns gyfoes/ hip hop/ stryd / disgo / jazz neu gyfuniad o arddulliau (ac eithrio dawnsio Gwerin). Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawns

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.

2 Gweler Rheol 28 (Rheol Amser Penodol) ar dudalen 84.

3 Ni chaniateir i'r hyfforddwyr, nag unrhyw berson arall, osod y dawnswyr yn eu lle ar gychwyn cystadlaethau Dawns ar lwyfannau Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth nac ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

4 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau caniatad hawlfraint perfformio ar gyfer yr holl draciau dawns ac uwchlwytho'r caniatad ysgrifennedig hwnnw wrth gofrestru. Ni ellir cystadlu heb y caniatad hwn. Mewn achos lle mae cystadleuwyr yn defnyddio mwy na 4 trac mewn perfformiad, mae'n bosib na fyddwn yn gallu sicrhau hawl darlledu ar gyfer y perfformiad cyfan. Os nad yw'r trac wedi ei gofrestru gyda PRS, efallai ni fydd hawl ei ddarlledu. Mae modd gwirio hyn trwy ddilyn cyfarwyddiadau arHunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.

5 Disgwylir i'r dawnswyr wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.

6 Arwynebedd perfformio llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw tua 10 x 8 metr.

Creadigol – Grŵp – Ni chaniateir defnyddio offer llwyfan, propiau, goleuadau arbennig na cholur. Mae rhyddid i'r dawnswyr ddewis beth mae nhw yn wisgo sy'n berthnasol i'r thema ac i'r hyn mae nhw yn gesio ei bortreadu. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim hwy na 100 gair yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru ac ni ddylid defnyddio symudiadau yn ystod y crynodeb. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.

Dawns Aml-Gyfrwng – Grŵp — Dehongliad creadigol o thema drwy gyfrwng arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull. Ceir defnyddio gwisgoedd addas a mân bropiau er mwyn dehongli'r thema a rhaid iddynt fod yn syml, addas, a chludadwy gan yr unigolyn fydd yn eu defnyddio. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim hwy na 100 gair yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru ac ni ddylid defnyddio symudiadau yn ystod y crynodeb. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.

7 Ni chaniateir cystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth gyda'r un ddawns.

8 Rhaid i bob symudiad fod o fewn cyd-destun yr arddull dawns ac i'r coreograffi ganolbwyntio ar y stepiau dawns.

9 Mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant y mae'r dawnswyr yn ei dderbyn yn ystyried agweddau a rheolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.

10 Rhaid uwchlwytho crynodeb y ddawns greadigol a'r aml-gyfrwng ar Y Porth erbyn y dyddiad cau.

11 Rhaid darparu cyfeiliant ar ffurf MP3 neu WAV a chael copi caled CD neu USB rhag ofn. Ni ddylai hyd y trac fod yn hwy na'r hyd a nodir. Rhaid uwchlwytho y trac wrth gofrestru ar Y Porth erbyn y dyddiad cau.

12 Dim propiau yng nghystadlaethau grwpiau hip hop, stryd, disgo.

Beirniaid: I'w cadarnhau

Llefaru

Dyddiad cau cofrestru: 3 Chwefror 2027

133	Llefaru Unigol Bl.2 ac iau	**'Grwndi', John Hywyn** *Rhannu'r hwyl, Cerddi i blant, Y Lolfa/Gomer* Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod.
134	Llefaru Unigol Bl.3 a 4	**'Breuddwydion', Anni Llŷn** *Dim ond Traed Brain Y Lolfa*
135	Llefaru Unigol Bl.5 a 6	**'Siop Lyfrau', Nesta Wyn Jones** *Ffŵl yn y Dŵr, Gwasg Gomer / Y Lolfa*
136	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau	**'Tro Gwael ar yr A470', Myrddin ap Dafydd** *Tafodau Symudol, Gwasg Carreg Gwalch* 6–12 mewn nifer.
137	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Ad)	**'Ar Wib efo'r Troli', Beryl Steeden Jones** *Odl a Chodl, Y Lolfa* 6–12 mewn nifer.
138	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9	**'Mae'r ddraig yma o hyd', T. James Jones** *Y Caeth yn Rhydd, Cyhoeddiadau Barddas*
139	Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau (Ad)	**'Bedd Branwen', Marged Tudur** *Yr Awen drwy'r Storïau, Cyhoeddiadau Barddas* 6–16 mewn nifer.
140	Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9	**'beaufort, blaenau gwent, mewn gwyrdd', Ifor Ap Glyn** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod 6–16 mewn nifer.
141	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed	**'I'r hen ddaear wiw', Sioned Erin Hughes** Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod
142	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed	**'Gwreiddiau', Mererid Hopwood** *Mae, Cyhoeddiadau Barddas* 6–16 mewn nifer.
143	Llefaru Unigol 19–25 oed	**'Y Gymraeg yn America', Tudur Hallam** *Parcio, Cyhoeddiadau Barddas*

144	Grŵp Llefaru dan 25 oed (Ae)	**'Galwad Gwent', Robat Powell** Detholiad ar gael o wefan yr Urdd 6–16 mewn nifer.
145	Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)	**'Glas', Tudur Dylan Jones** *Byd Llawn Hud, Gomer / Y Lolfa*
146	Llefaru Unigol Bl.3 a 4 (D)	**'Parti', Aled Richards** *Sgram? Cerddi Blasus, Atebol*
147	Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D)	**'Wyt ti'n Gelt?', Eurig Salisbury** *Lluniau yn fy mhen, Atebol*
148	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (D)	**'Y Gerdd Werdd', Gwyneth Glyn** *Cerddi'n Cerdded, Gomer / Y Lolfa* 6–12 mewn nifer.
149	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 (D)	**'Llaw', Tudur Dylan Jones** *Poeth! – Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa*
150	Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9 (D)	**'Gyrfaoedd', Mererid Hopwood** *Caneuon y Coridorau, Gwasg Carreg Gwalch* 6–12 mewn nifer.
151	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed (D)	**'Stori Fawr y Stori Fer', Elinor Wyn Reynolds** *Anwyddoldeb, Cyhoeddiadau Barddas*
152	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed (D)	**'Etifeddiaeth', Gerallt Lloyd Owen** *Sbectol Inc, Y Lolfa* 6–12 mewn nifer.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llefaru

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi/darnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr e.e. gellir defnyddio symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.

2 Caniateir defnyddio cerddoriaeth ond ni ddylid ychwanegu geiriau. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.

3 Ni chaniateir gorddefnydd o iaith arall.

4 Yng nghystadlaethau'r Adran Llefaru, lle bo'r darn prawf wedi ei ysgrifennu mewn tafodiaith gref, caniateir rhai mân newidiadau i ynganiad geiriau er mwyn i'r darn swnio'n naturiol i'r glust yn nhafodiaith y cystadleuydd. Dylid, fodd bynnag, sicrhau bod yr addasiad yn gynnil ac angenrheidiol. Ni ddylai unrhyw addasiadau, er mwyn bod yn driw i waith y llenor/bardd, effeithio ar fydr ac odl cerdd na newid ystyr y darn prawf mewn unrhyw fodd. Lle bo'r darn mewn cynghanedd, ni chaniateir unrhyw newidiadau.

5 Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.

6 Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau hwn. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn urnhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.

7 Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad.

Beirniaid: I'w cadarnhau

Beirniaid Llefaru Dysgwyr: I'w cadarnhau

Siarad Cyhoeddus

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

153 **Tîm Siarad Cyhoeddus Bl.10 a dan 19 oed**

154 **Tîm Siarad Cyhoeddus 14–25 oed (Ae)**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Rhaid cofrestru timau Siarad Cyhoeddus erbyn 3 Mawrth

2 Ar ôl eu perfformiad prawf Rhanbarthol, anfonir nodiadau bras at y timau a ddewisir i'r profion terfynol.

3 Wedi gweld yr holl dimau, bydd y beirniad yn dewis y timau gorau o blith y timau Ysgolion Uwchradd, a'r gorau o blith y timau Aelwydydd. Bydd y timau hyn yn ymddangos yn y profion terfynol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Hysbysir pob tîm, llwyddiannus ac aflwyddiannus, tua chanol Ebrill.

4 Rhaid i'r timau a ddewisir i'r profion terfynol gystadlu ar y dyddiad ac yn y drefn a benderfynir gan Drefnydd yr Eisteddfod.

5 Sylwer mai tîm Ysgol a thîm Aelwyd sydd i gystadlu. Yr Ysgol/Aelwyd yw'r uned, ac ni chaniateir benthyca perfformwyr o Ysgolion/Aelwydydd eraill.

6 Caniateir 4 aelod mewn tîm.

7 Briff a Rheolau cystadlaethau Siarad Cyhoeddus

Beirniad:

Theatr

Dyddiad cau cofrestru: 3 Chwefror 2027

155	**Perfformio Golygfa Bl.6 ac iau**	**'Cystadlu', Rhodri Harries a Carys Glyn** *Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod* Darn gosod ar gael ar wefan yr Urdd 2–4 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
156	**Perfformiad Theatrig i Grwp Bl.6 ac iau**	**Thema – 'Cyfrinach'** Dim llai na 10 mewn nifer. Rhwng 5 a 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Ni chaniateir canu.
157	**Cân Actol Bl.6 ac iau Ysgolion â hyd at 100 o blant rhwng 4–11 oed (YC/Ad)**	**Thema – 'Dathlu' neu 'Gêm'** Dim llai na 10 mewn nifer. Rhwng 5 a 10 munud.
158	**Cân Actol Bl.6 ac iau Ysgolion â thros 100 o blant rhwng 4–11 oed (YC)**	**Thema – 'Chwedl' neu 'Antur'** Dim llai na 10 mewn nifer. Rhwng 5 a 10 munud gan gynnwys amser iosod a chlirio llwyfan
159	**Perfformiad Unigol o Gân Sioe Gerdd Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Cân o sioe gerdd. Dim hwy na 3 munud. Y perfformiad yw'r elfen bwysig, sef cyfleu'r stori a'r cymeriad, nid cywirdeb i'r copi bob tro. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.

160	**Monolog Bl.7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Monolog o ddrama, nofel Gymraeg neu sgript wreiddiol. Dim hwy na 3 munud. Gweler rhestr o ddramau cyfoes Cymraeg yma. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio. Dylech ystyried y gynulleidfa deuluol wrth ddewis monolog.
161	**Perfformio Golygfa (2–4 mewn nifer)** **Bl. 7, 8 a 9**	**'Owain Glyndŵr a'i antur i ofod y Gorllewin Gwyllt', Chris Harries** *Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod* Darn gosod ar wefan yr Urdd 2–4 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
162	**Perfformio Golygfa (5–10 mewn nifer)** **Bl. 7, 8 a 9**	**Dewis o un ai:** **'Y Cae Ras', Manon Steffan Ros** *Y Lolfa* **neu:** **'Cyfrinach Craig Yr Wylan', Bet Jones** *Y Lolfa* **neu:** **'Wyneb Yn Wyneb', Sioned Wyn Roberts** *Atebol* 5–10 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio darn hunan-ddewisiad.
163	**Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl.7, 8 a 9**	**Dewis o un ai:** **Cân: 'Pwy Sy'n Galw?', Dom a Lloyd** **neu:** **Delwedd: '*Trying to Catch The Wind*', Kevin Sinnott** **neu** **Cerdd: 'Wennol Fach', Nesta Wyn Jones** Darn gosod ar gael ar wefan yr Urdd Dim llai na 10 mewn nifer. Rhwng 5 a 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

164	**Perfformio Golygfa Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** 2–4 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
165	**Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl. 10 a dan 19 oed**	**Dewis o un ai:** **Cân: 'Gwreiddiau', Sŵnami** **neu:** **Delwedd: '*Running Away with the Hairdresser*', Kevin Sinnott** **neu:** **Cerdd: 'Hen Stori', Nesta Wyn Jones** Darn gosod ar gael o wefan yr Urdd Dim llai na 10 mewn nifer. Rhwng 5 a 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
166	**Detholiad o Ddrama Gerdd Bl. 7 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim llai na 10 mewn nifer. Dim hwy na 12 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
167	**Stand-Yp 14–25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud.
168	**Codi Hwyl Bl 7 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Cynnwys: bydd gofyn i unrhyw sgript a berfformir fod yn wreiddiol. Cyfrifoldeb y cystadleuydd / cystadleuwyr yw trefnu caniatâd o ran hawlfraint unrhyw gerddoriaeth a ddefnyddir. Amser: hyd at 8 munud o berfformiad. Canieteir 5 munud i osod a chlirio'r llwyfan. Nifer: Unigolyn neu grŵp (hyd at 12 mewn nifer) Amlinelliad: Yn ddibynnol ar nifer y cystadleuwyr, efallai na fydd yn bosibl i bob ymgeisydd berfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd felly bydd gofyn i bob ymgeisydd ddarparu clip fideo (dim mwy na 4 munud o hyd) neu ddogfen ysgrifenedig erbyn Mawrth 3ydd yn amlinellu cynnwys y perfformiad, nifer y perfformwyr ac unrhyw anghenion o ran llwyfannu. Bydd Adran yr Eisteddfod yna yn cysylltu a'r cystadleuwyr buddugol i wahodd nhw i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
169	**Monolog Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Cyflwyno monolog na chymer fwy na 4 munud i'w berfformio. Dylech ystyried y gynulleidfa deuluol wrth ddewis darn. Gweler rhestr o ddramau cyfoes Cymraeg ar wefan yr Urdd Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.

170	**Monolog 19–25 oed**	**Hunan-ddewisiad: 2 fonolog Gyferbyniol (1 yn wreiddiol Gymraeg)** Dim hwy na 6 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu. Gweler rhestr o ddramau cyfoes Cymraeg ar wefan yr Urdd. Dylech ystyried y gynulleidfa deuluol wrth ddewis darn.
171	**Perfformiad o gân Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
172	**Perfformiad o gân Sioe Gerdd 19–25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
173	**Ensemble o Gân Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** 2–6 mewn nifer.Dim hwy na 4 munud. Perfformiad o olygfa neu gân o sioe gerdd. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
174	**Côr Sioe dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Dim llai na 20 mewn nifer. Dim hwy na 4 munud. Cân o Sioe Gerdd, cân bop neu gadwyn o ganeuon pop Cymraeg neu gân gospel. Gall fod yn drefniant arbennig neu yn berfformiad o ddarn sydd eisoes yn bodoli. Ni chaniateir i unrhyw gôr berfformio darn sy'n ddarn prawf yn yr Eisteddfod hon nac ychwaith ganu'r un trefniant mewn cystadleuaeth 'hunan-ddewisiad' arall. Nid oes gan Gôr sioe arweinydd ac mae y symud yn dechrau yn syth. Gweler Rheol 5 a 7 isod. Rhaid sicrhau hawlfraint i berfformio.
175	**Perfformio Golygfa Bl.6 ac iau (D)**	**'Gwenynen Gwent', Rhodri Harries a Carys Glyn** *Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod* 2–4 mewn nifer. Hyd at 5 munud. Darn gosod ar gael ar wefan yr Urdd
176	**Cân Actol Bl.6 ac iau (D)**	**Thema – 'Teithio'** Dim llai nag 8 mewn nifer. Cyflwyniad na chymer fwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

177	**Perfformio Golygfa Bl.7, 8 a 9 (D)**	**'Un Bore yn yr Orsaf', Thomas Cherry-Gunning** *Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod* 2–4 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Darn gosod ar wefan yr Urdd

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Theatr

1 Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

2 Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad. Diffinnir prop a set fel eitem neu offer y gall un cystadleuydd ei gario i ac o'r llwyfan.

3 Amserir y perfformiad o'r sain neu'r ystum cyntaf nes bo'r cystadleuwyr wedi gadael y llwyfan ac eithrio cystadlaethau Unawdau ac Ensemble Sioe Gerdd lle gorffennir yr amseru ar y nodyn olaf. Gweler Rheol Amser (3) tudalen 84.

4 Bydd 5 meicroffon ar lwyfan y Genedlaethol a bydd yn bosibl defnyddio hyd at 4 meicroffon radio ac eithio'r gystadleuaeth Ensemble o Gan Sioe Gerdd a Detholiad o Ddrama Gerdd lle caniateir hyd at 6 meicroffon radio.

5 Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd berfformio unrhyw ddarn y maent wedi'i berfformio eisoes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros y tair blynedd diwethaf.

6 Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant yn unig. Nid oes rhaid i'r cyfeilyddion fod o fewn oedran y gystadleuaeth.

7 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad, cerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol, o fewn y perfformiad. Rhaid uwchlwytho'r copi a chaniatad hawlfraint i berfformio os yn y Gymraeg ac hefyd cyfieithiad tri llinell a chopi o'r caniatad gan y cyhoeddwr os yn gyfieithiad ar y porth. Ni chaniateir gwisg sy'n gysylltiedig â'r sioe wreiddiol yng nghystadlaethau 159, 166, 171, 172, 173. Anogir cystadleuwyr i ddefnyddio cerddoriaeth wreiddiol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.

8 Ni chaniateir gorddefnydd o iaith arall.

9 **Perfformio Golygfa 2–4 mewn nifer** Cyflwyniad gan 2–4 mewn nifer o sgript osodedig neu sgript hunan-ddewisiad yn ddibynnol ar y gystadleuaeth o dan sylw. Dylid sicrhau bod hyd perfformio y sgript hunan-ddewisiad yn ddim mwy na 5 munud. Mae hawl gan yr hyfforddwr i newid ac addasu acen. Caniateir newid rhyw'r cymeriad os yw hynny yn gwneud synnwyr ac yn gydnaws â'r sgript. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml. Gweler Rheol Amser (3) tudalen 84.

10 **Cân Actol – Bl.6 a iau** Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar ganu ac actio. Dylai'r gerddoriaeth lifo drwy'r perfformiad cyfan. Gall y geiriau a'r alawon fod yn wreiddiol, wedi eu cyhoeddi neu'n gyfuniad o'r ddau. Rhaid sicrhau hawlfraint os yn defnyddio cerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml.

11 **Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl.6 a iau** Perfformiad o sgript ar thema osodedig gan grŵp. Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar yr elfen ddramatig. Caniateir defnyddio gwaith megis darnau o ddrama yn ogystal â gwaith gwreiddiol. Caniateir y defnydd o gerddoriaeth gefndirol i ychwanegu at yr awyrgylch yn unig. Nid oes hawl canu yn y gystadleuaeth yma a dylid pwysleisio nad y gerddoriaeth yw'r elfen bwysicaf o'r gystadleuaeth. Caniteir gwisgoedd, offer a set syml.

12 **Perfformio Golygfa Bl.7, 8 a 9 5–10 mewn nifer** Hyd – 5 munud Rhwng 5–10 mewn nifer. Rhaid dewis golygfa / digwyddiad o'r darn gosod. Rhaid i holl gynnwys y perfformiad ddeillio o'r ddrama. Gallwch gyflwyno yr olygfa yn defnyddio unrhyw dechnegau/ arddulliau theatrig. Nid yw'r gystadleuaeth yn gofyn am berfformio y stori gyfan. e.e. Gallwch rannu y naratif rhwng yr holl grŵp, defnyddio corws, defnyddio tableaux, symudiadau, pypedau, neu unrhyw beth fydd yn creu perfformiad ac adloniant i'r gynulleidfa. Canieteir defnyddio mân offer, gwisgoedd a cherddoriaeth. Rhaid cael hawlfraint unrhyw gerddoriaeth a ddefnyddir.

13 **Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl.7 8, a 9 a Bl.10 a dan 19** Hyd – rhwng 5 a 10 munud. Dim llai na 10 mewn nifer. Dehongliad theatrig o un o'r ysgogiadau gosod. Gall fod yn gerddoriaeth i gyd, yn lefaru i gyd, neu'n gyfuniad o'r ddau. Gall y perfformiad gynnwys deunydd gwbwl wreiddiol neu ddeunydd gan awduron neu gyfansodwyr eraill. Caniateir mân offer a gwisg. Rhaid cael hawlfraint unrhyw ddeunydd a ddefnyddir.

14 **Perfformiad o Gân Sioe Gerdd** Cyfrifoldeb yr unadwydd yw sicrhau hawlfraint perfformio gan y cwmni cyhoeddi perthansol. Disgwylir i'r sawl sy'n cystadlu uwchlwytho tystiolaeth o'r hawlfraint / caniatâd wrth gofrestru.

15 **Monolog Bl7,8 a 9, Bl.10 a dan 19 oed a 19-25 oed** Cyflwyniad(au) o ddrama, darn o ryddiaith sydd wedi ei(u) cyhoeddi neu waith gwreiddiol addas. Caniateir gwisgoedd ac offer syml ar gyfer y perfformiad. Dylech ystyried y gynulleidfa deuluol wrth ddewis darn.

16 **Ensemble o Gân Sioe Gerdd Bl 10 a dan 25 oed** Perfformiad hyd at 4 munud gan 2 neu hyd at 6 aelod o gân neu olygfa o Sioe Gerdd. Rhaid i bob aelod gynrychioli cymeriad unigol yn ystod y cyflwyniad. Oherwydd rhesymau hawlfraint bydd angen gwirio gyda'r cyhoeddwyr os am ddefnyddio gwisgoedd ac offer sydd yn efelychu cynhyrchiadau llwyfan. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi recordio ymlaen llaw, ond cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint.

17 **Stand-yp** Cyflwynaid o waith comedi gwreddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud. Cynhelir y gystadleuaeth ar Lwyfan y Maes, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Nid oes rhaid cyflwyno sgript o flaen llaw ond rhaid i'r cynnwys fod yn weddus ac nid yn enllibus.

18 **Detholiad o Ddrama Gerdd** Nid oes rhaid cyflwyno'r stori yn gyflawn a gellid canu rhannau o ganeuon ond dylid ceisio sicrhau bod y cyflwyniad yn llifo i greu cyfanwwaith. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi ei recordio ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y grŵp yw sichau hawlfraint perfformio. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8.

19 **Codi Hwyl Bl 7 a dan 25 oed** – Bydd gofyn i unrhyw sgript a berfformir fod yn wreiddiol. Cyfrifoldeb y cystadleuydd / cystadleuwyr yw trefnu caniatâd o ran hawlfraint unrhyw gerddoriaeth a ddefnyddir. Amser: hyd at 8 munud o berfformiad. Canieteir 5 munud i osod a chlirio'r llwyfan. Nifer: Unigolyn neu grŵp (hyd at 12 mewn nifer) Amlinelliad: Yn ddibynnol ar nifer y cystadleuwyr, efallai na fydd yn bosibl i bob ymgeisydd berfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd felly bydd gofyn i bob ymgeisydd ddarparu clip fideo (dim mwy na 4 munud o hyd) neu ddogfen ysgrifenedig erbyn 3ydd Mawrth yn amlinellu cynnwys y perfformiad, nifer y perfformwyr ac unrhyw anghenion o ran llwyfannu. Bydd Adran yr Eisteddfod yna yn cysylltu a'r cystadleuwyr buddugol i wahodd nhw i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Beirniaid: I'w cadarnhau

Trin Gwallt a Harddwch

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

178	**Lefel 1 / Mynediad Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed**	**Thema: Edrychiad sy'n cynrychioli degawd**
179	**Lefel 1 / Mynediad Harddwch Bl.10 a dan 25 oed**	**Thema: Edrychiad sy'n cynrychioli degawd**
180	**Lefel 2 a 3 Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed**	**Rhaid cyflwyno portffolio digidol gydag enghreifftiau o waith trin gwallt. Gall y portffolio gynnwys clipiau fideo, cynlluniau, esboniadau, ffotograffau a diagramau neu gyfuniad o'r rhain. Gall y portffolio dangos enghreifftiau o waith steilio, lliwio, torri neu gyfuniad o bob un.**
181	**Lefel 2 a 3 Harddwch Bl.10 a dan 25 oed**	**Rhaid cyflwyno portffolio digidol gydag enghreifftiau o waith harddwch. Gall y portffolio gynnwys clipiau fideo, cynlluniau, esboniadau, ffotograffau a diagramau neu gyfuniad o'r rhain. Gall y portffolio dangos enghreifftiau o waith colur, ewinedd neu gyfuniad o'r rhain.**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Trin Gwallt a Harddwch

Trefn y gystadleuaeth

1 Cynhelir cystadleuaeth Mynediad/Lefel 1 Trin Gwallt a chystadleuaeth Mynediad Lefel 1 Harddwch yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd mewn lleoliad ar y maes. Rhaid cofestru i'r gystadleuaeth yma erbyn 3 Mawrth 2027.

2 Lefel 2 a 3 Trin Gwallt a Harddwch bl 10 a dan 25 oed - Rhaid cyflwyno portffolio digidol gydag enghreifftiau o waith trin gwallt neu harddwch. Gall y portffolio gynnwys clipiau fideo, cynlluniau, esboniadau, ffotograffau a diagramau neu gyfuniad o'r rhain. Ar gyfer cystadleuaeth Lefel 2 a 3 Trin Gwallt, gall y portffolio gynnwys enghreifftiau o waith steilio, lliwio, torri neu gyfuniad o bob un. Ar gyfer cystadleuaeth Lefel 2 a 3 Harddwch, gall y portffolio gynnwys enghreifftiau o waith colur, ewinedd neu gyfuniad o'r rhain. Rhaid cofretsru ac uwchlwytho'r portffolio i'r Porth erbyn 3 Mawrth 2027.

3 Bydd portffolios llwyddiannus cystadlaethau Trin Gwallt a Harddwch Lefel 2 a 3 yn cael eu harddangos mewn lleoliad yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a bydd y cystadleuwyr llwyddiannus yn cael eu gwahodd i dderbyn eu medalau a'u tystysgrif yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Rheolau Cystadlu

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw darparu offer a model eu hunain er mwyn cwblhau'r dasg yng nghystadleuaeth Mynediad / Lefel 1 Trin Gwallt neu Harddwch . Darperir un soced drydanol, bwrdd a chadair ar gyfer bob cystadleuydd.

Mae'r pecynnau gwybodaeth ar gyfer y cystadlaethau yma ar wefan Eisteddfod yr Urdd

Trin Gwallt Mynediad / Lefel 1
Creu delwedd gyflawn yn seiliedig ar y thema. Bydd gan bob cystadleuydd 90 munud i gwblhau'r dasg gan gynnwys sefydlu a chlirio. Gall y gwaith colur, gwisgoedd ac ategolion gael ei gwblhau o flaen llaw gan y cystadleuydd yn unig. Mae'r cystadleuwyr yn rhydd i ddewis eu hoffer a'u cynhyrchion ar gyfer y dasg. Caniateir paratoi 30% o'r gwallt/ategolion gwallt ymlaen llaw.

Harddwch Mynediad / Lefel 1
Celf ewinedd a cholur yn seiliedig ar y thema. 90 munud i gwblhau'r dasg gan gynnwys sefydlu a chlirio. Dylai'r cystadleuwyr ganolbwyntio ar yr edrychiad terfynol, ond bydd y beirniad hefyd yn ystyried y gwallt a'r gwisgoedd. Gellir paratoi'r gwallt a'r gwisgoedd ymlaen llaw.

Pecyn gwybodaeth cystadlaethau Trin Gwallt a Harddwch

Clic!
Gallwch glicio ar unrhyw un o'r adrannau yn y rhestr cynnwys i fynd yn syth at yr adran berthnasol.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg

Cystadlaethau ADY 53
Cynllunio Crys-T 54
Cymeriad Cartŵn 55
Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au) 55
Llun 2D 55
Gwaith Creadigol 2D 55
Graffeg Cyfrifiadurol 56
Ffotograff Wedi'i Addasu 56
Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn 56
Ffotograffiaeth: Llun Lliw 57
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn 57
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw 58
Argraffu 58
Addurno ar ffabrig 58
Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig 59
Ffasiwn 59
Pypedau 60
Gwaith 3D 60
Uwchgylchu 61
Serameg 61
Gemwaith 62
Dylunio a Thechnoleg 62
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed 63
Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed 63

Adran Cyfansoddi

Cyfansoddi: Cerddoriaeth 64
Cyfansoddi: Cerdd Dant 65
Cyfieithu 66
Darlunio Llyfr Stori-a-llun 67
Creu Ap 67
Creu Gwefan 68
Cynnwys Digidol 69
Ffilm 69
Gofal Plant 70
Prosiect Gwyddonol 71
Llenyddiaeth 71

Adran y Dysgwyr

Dysgwyr 75
Dysgwyr: Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio 76
Cystadleuaeth Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd 76
Ysgoloriaeth Geraint George 77
Meithrin Talent – Talent Meithrin 78
Newyddiaduraeth 78
Cyfansoddi: Drama 79
Eisteddfod T 79

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 **Cystadlu** – Rhaid i bob darn o waith yn yr Adran CDT fynd drwy rowndiau Cylch / Rhanbarth. Bydd y gwaith a gaiff y wobr gyntaf ym mhob cystadleuaeth yn yr adran Gynradd, ac y cyntaf a'r ail o'r adran Uwchradd ac Aelwydydd o bob Rhanbarth yn mynd ymlaen at y Rownd Feriniadu Genedlaethol.

a **Medal CDT** – Dyfernir y Fedal CDT i'r cystadleuydd sydd wedi cyflwyno gwaith mwyaf addawol o blith holl gynnyrch Bl.10 a dan 19 oed sy'n cyrraedd y Rownd Feirniadu Genedlaethol.

b **Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed** – Gwahoddir holl gystadleuwyr Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc i Rownd Feirniadu Genedlaethol arbennig gan hepgor ymddangos mewn rownd feirniadu Cylch / Rhanbarth.

c **Cynnyrch** – Rhaid i'r holl ddarnau a gyflwynir fod yn waith gwreiddiol a grëwyd gan y cystadleuydd/wyr, gyda label swyddogol cofrestru CDT yr Urdd wedi ei atodi, sy'n cynnwys llofnod oedolyn (dros 18 oed) i dystio bod hyn yn wir.

2 **Dyddiad Beirniadu Rhanbarth** – Trefnir dyddiad y beirniadu Rhanbarthol. Cysylltwch â'ch trefnydd lleol i gadarnhau'r dyddiad.

3 **Cofrestru** – Cofrestru erbyn 14 Ebrill 2027 . Bydd angen labelu pob darn o waith, gan ddefnyddio'r label a ddarperir wrth gofrestru.

4 **Nifer** – Ni chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy nag unwaith ymhob cystadleuaeth o fewn yr un adran ac eithrio'r gystadleuaeth Darlunio Llyfr Stori-a-llun gyfer plant dan 7 oed (18–25 oed) ar dudalen 67.

5 **Maint** – Maint pob eitem
a) Gwaith 2D: Dim mwy na 420mm x 594mm
b) Gwaith 3D: Dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm
c) Gwaith Cerameg/Crochenwaith: Dim mwy na 400mm x 400m x 400m

Diffiniad Gwaith 3D – Gwrthrych sy'n weledol o bob cyfeiriad (ac eithrio'r gwaelod os yw'n sefyll ar lawr) ac yn cynnal ei hun.

Diffiniad Gwaith 2D – Gwaith tenau/fflat sydd yn addas i'w hongian ar wal.

6 **Ffotograffiaeth** – Ni chaniateir cyflwyno yr un ffotograff mewn mwy nag un gystadleuaeth. Nid oes modd cynnwys ffotograff o gystadleuaeth unigol mewn cystadlaethau cyfres o luniau. Nid oes modd cyflwyno'r un ffotograff mewn cystadleuaeth lliw a chystadleuaeth du a gwyn.

7 **Pwysau** – Ni all unrhyw eitem Gwaith 3D bwyso mwy na 12kg ac eithrio gwaith Ysgoloriaeth yr Artist yr Ifanc Bl.10 a dan 25 oed

8 **Mowntio** – Er mwyn diogelu'r gwaith, caniateir mowntio ar bapur neu garden os oes angen. Ni chaniateir defnyddio 'mownt ffenestr' na ffrâm ar gyfer gwaith 2D ac eithrio lle mae ffrâm yn angenrheidiol ar gyfer strwythur y gwaith. Caiff y gwaith buddugol ei fowntio'n broffesiynol ar gyfer yr arddangosfa.

9 **Cyhoeddi** – Bydd gan yr Urdd yr hawl i ddefnyddio neu gyhoeddi delweddau y cynnyrch a ddyfernir yn fuddugol yn yr adran CDT yn y dyfodol heb geisio caniatâd yr artist.

10 **Colled neu ddifrod** – Cymerir pob gofal o'r cynhyrchion ond ni fydd yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod anorfod a all ddigwydd o safbwynt cludo gwaith i'r Beirniadu Cenedlaethol ac i/o Faes yr Eisteddfod. Os oes gwerth mawr i'r cynhyrchion neu os yw'r cynhyrchion yn fregus, mae croeso i gystadleuwyr wneud trefniadau eu hunain i gludo'r gwaith.

Beirniaid: I'w cadarnhau

Gweld taflen ysbrydoliaeth

Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg

Cystadlaethau ADY

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

182	ADY: Llun 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Pontio
183	ADY: Llun 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol	Agored
184	ADY: Llun 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol	Agored
185	ADY: Llun 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Pontio
186	ADY: Llun 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys	Agored
187	ADY: Llun 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys	Agored
188	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Pontio
189	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y Cymedrol (Grŵp)	Pontio
190	ADY: Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 ac iau A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
191	ADY: Creadigol 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
192	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Pontio
193	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y Dwys (Grŵp)	Pontio
194	ADY: Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 ac iau A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
195	ADY: Creadigol 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored

196	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Pontio
197	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (grŵp)	Pontio
198	ADY: Gwaith 3D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
199	ADY: Gwaith 3D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
200	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Pontio
201	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys (grŵp)	Pontio
202	ADY: Gwaith 3D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
203	ADY: Gwaith 3D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
204	ADY: Darn o waith celf wedi'i gyflwyno gyda phortffolio o'r broses creu i unigolyn neu grŵp PMLD	Agored

Cynllunio Crys-T

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cynllunio Crys-T (blaen ar A4, cefn ar A4, a'i gyflwyno ar darn A3) i gyfleu unrhyw agwedd neu agweddau o'r thema Pontio. Gallwch lawrlwytho **templed o grys T gwag**.

205	Cynllunio Crys-T Bl.2 ac iau	Pontio
206	Cynllunio Crys-T Bl.3 a 4	Pontio
207	Cynllunio Crys-T Bl.5 a 6	Pontio
208	Cynllunio Crys-T Bl.7, 8 a 9	Agored

Cymeriad Cartŵn

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Dyfeisio cymeriad cartŵn newydd gan dynnu llun o'r cymeriad ac ysgrifennu darn amdano heb fod yn hwy na 150 gair

209	**Cymeriad Cartŵn Bl.6 ac iau**	**Agored**

Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au)

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cyflwyno tudalen gomig gyda chymeriad(au) sy'n ffitio oddi-mewn i dudalen dim mwy na A3.

210	**Tudalen Gomic Bl.7, 8 a 9**	**Agored**
211	**Tudalen Gomic Bl.10 a dan 19 oed**	**Agored**

Llun 2D

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Creu llun 2D sy'n addas i'w hongian ar wal, gan ddefnyddio un neu gyfuniad o'r cyfryngau yma: Pensil, Inc, Creon, Pastel neu Baent i fesur dim mwy na 760mm × 560mm.

212	**Llun 2D Bl.2 ac iau**	**Pontio**
213	**Llun2D Bl.3 a 4**	**Pontio**
214	**Llun 2D Bl.5 a 6**	**Pontio**
215	**Llun 2D Bl.7, 8 a 9**	**Agored**
216	**Llun 2D Bl.10 a dan 19 oed**	**Agored**

Gwaith Creadigol 2D

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cyflwyno unrhyw waith 2D wedi ei ludo ar gefndir fflat (e.e. cerdyn, bwrdd, teil, gwydr, plastig neu fetel), i greu gludlun (collage) neu fosaig. Byddai gwaith yn y categori hwn yn addas i'w hongian ar wal, ac yn mesur dim mwy na 760mm × 560mm.

217	**Creadigol 2D Bl.2 ac iau**	**Pontio**
218	**Creadigol 2D Bl.3 a 4**	**Pontio**
219	**Creadigol 2D Bl.5 a 6**	**Pontio**
220	**Creadigol 2D Bl.6 ac iau (Grŵp)**	**Pontio**

221	Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
222	Creadigol 2D Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Graffeg Cyfrifiadurol

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Gwaith gwreiddiol wedi ei greu ar unrhyw ddyfais ddigidol i fesur dim mwy na A4.

223	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.2 ac iau	Pontio
224	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.3 a 4	Pontio
225	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.5 a 6	Pontio
226	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9	Agored
227	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffotograff Wedi'i Addasu

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Addasu ffotograff eich hun i greu delwedd ddigidol newydd. Gellir defnyddio sganiwr ac unrhyw feddalwedd i olygu a chreu un darn o waith gorffenedig i fesur tua A4 (e.e. 10″×8″ neu 12″×10″). Rhaid cynnwys y ffotograff gwreiddiol gyda'r gwaith.

228	Ffotograff wedi'i addasu Bl.6 ac iau	Pontio
229	Ffotograff wedi'i addasu Bl.7, 8 a 9	Agored
230	Ffotograff wedi'i addasu Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Un llun ffotograff du a gwyn neu fonocrom i fesur tua A4 (e.e. 10″×8″ neu 12″×10″). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

231	Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.2 ac iau	Pontio
232	Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.3 a 4	Pontio

233	Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.5 a 6	Pontio
234	Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.7, 8 a 9	Agored
235	Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffotograffiaeth: Llun Lliw

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Un llun ffotograff lliw i fesur tua A4 (e.e. 10″×8″ neu 12″×10″). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

236	Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.2 ac iau	Pontio
237	Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.3 a 4	Pontio
238	Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.5 a 6	Pontio
239	Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.7, 8 a 9	Agored
240	Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cyfres o 4 ffotograff du a gwyn neu fonocrom. Pob llun i fesur tua A5 (e.e. 7″×5″). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

241	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.2 ac iau	Pontio
242	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.3 a 4	Pontio
243	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.5 a 6	Pontio
244	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.7, 8 a 9	Agored
245	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cyfres o 4 ffotograff lliw. Pob llun i fesur tua A5 (e.e. 7″×5″). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

246	**Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.2 ac iau**	**Pontio**
247	**Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.3 a 4**	**Pontio**
248	**Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.5 a 6**	**Pontio**
249	**Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.7, 8 a 9**	**Agored**
250	**Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.10 a dan 19 oed**	**Agored**

Argraffu

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Argraffu ar unrhyw ddeunydd gan ddefnyddio un neu gyfuniad o gyfryngau e.e. Leino, Pren, Plastig, Papur, Ffabrig neu Fetel i fesur dim mwy na 760mm × 560mm.

251	**Argraffu Bl.2 ac iau**	**Pontio**
252	**Argraffu Bl.3 a 4**	**Pontio**
253	**Argraffu Bl.5 a 6**	**Pontio**
254	**Argraffu Bl.6 ac iau (grŵp)**	**Pontio**
255	**Argraffu Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)**	**Agored**
256	**Argraffu Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)**	**Agored**

Addurno ar ffabrig

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Addurno ar ffabrig 2D neu 3D gan ddefnyddio unrhyw dechneg neu gyfuniad o dechnegau megis: Paentio, Print, Pwyth, Clymu a Llifo, Batic, Argraffu Bloc, Brodwaith (â llaw neu â pheiriant) neu Ddefnyddio Cyfrifiadur, i fesur dim mwy na 750mm × 750mm × 750mm.

257	**Addurno ar ffabrig Bl.2 ac iau**	**Pontio**

258	Addurno ar ffabrig Bl.3 a 4	Pontio
259	Addurno ar ffabrig Bl.5 a 6	Pontio
260	Addurno ar ffabrig Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
261	Addurno ar ffabrig Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
262	Addurno ar ffabrig Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Creu gwaith 2D neu 3D sy'n defnyddio deunyddiau a thechnegau megis: Ffeltio, Gwau â Llaw neu â pheiriant, Gwnïo â llaw neu â pheiriant, Crosio neu wehyddu, i fesur dim mwy na 750mm × 750mm × 750mm.

263	Creu Tecstilau: Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.2 ac iau	Pontio
264	Creu Tecstilau: Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.3 a 4	Pontio
265	Creu Tecstilau: Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.5 a 6	Pontio
266	Creu Tecstilau: Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
267	Creu Tecstilau: Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
268	Creu Tecstilau: Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Ffasiwn

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Creu eitem o'r newydd i'w wisgo gan ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau.

269	Ffasiwn Bl.6 ac iau	Pontio
270	Ffasiwn Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio

271	Ffasiwn Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
272	Ffasiwn Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Pypedau

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Hyd at 3 phyped o unrhyw fath megis: bys, llaw neu ar linyn. Dylai pyped ar linyn gael ei gyflwyno mewn ffrâm bwrpasol ddiaddurn er mwyn ei hongian/arddangos yn unig. Ni fydd unrhyw addurniadau neu ategolion i'r ffrâm yn cael eu beirniadu fel rhan o'r gwaith. Ni ddylai dimensiwn y ffrâm i gynnal y pypedau fod yn fwy na 750mm × 750mm × 750mm.

273	Pyped Bl.2 ac iau	Pontio
274	Pyped Bl.3 a 4	Pontio
275	Pyped Bl.5 a 6	Pontio
276	Pyped Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
277	Pyped Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
278	Pyped Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Gwaith 3D

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cyflwyno gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau. Byddai gwaith yn y categori yma yn weledol o bob cyfeiriad (ac eithrio'r gwaelod os yw'n sefyll ar lawr) ac yn cynnal ei hun, ac yn mesur dim hwy na 750mm × 750mm × 750mm a phwyso llai na 12kg.

279	Gwaith 3D Bl.2 ac iau	Pontio
280	Gwaith 3D Bl.3 a 4	Pontio
281	Gwaith 3D Bl.5 a 6	Pontio
282	Gwaith 3D Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
283	Gwaith 3D Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored

284	Gwaith 3D Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Uwchgylchu

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Uwchgylchu unrhyw wrthrych/au i greu darn newydd. Rhaid cynnwys ffotograff(au) o'r gwrthrych(au) gwreiddiol fel tystiolaeth o'r camau a gymerwyd. Y gwaith gorffenedig i fesur dim hwy na 750mm × 750mm × 750mm.

285	Uwchgylchu Bl.2 ac iau	Pontio
286	Uwchgylchu Bl.3 a 4	Pontio
287	Uwchgylchu Bl.5 a 6	Pontio
288	Uwchgylchu Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
289	Uwchgylchu Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
290	Uwchgylchu Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Serameg

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Rhaid sicrhau fod y clai wedi cael o leiaf un taniad bisged mewn odyn a chaniateir defnyddio clai awyr sych. Dylai'r gwaith ffitio i ffrâm neu focs 400mm × 400mm × 400mm.

291	Serameg Bl.2 ac iau	Pontio
292	Serameg Bl.3 a 4	Pontio
293	Serameg Bl.5 a 6	Pontio
294	Serameg Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
295	Serameg Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
296	Serameg Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Gemwaith

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Gemwaith gwreiddiol mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau.

297	Gemwaith Bl.2 ac iau	Pontio
298	Gemwaith Bl.3 a 4	Pontio
299	Gemwaith Bl.5 a 6	Pontio
300	Gemwaith Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
301	Gemwaith Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
302	Gemwaith Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Dylunio a Thechnoleg

Dyddiad cau cofrestru:14 Ebrill 2027

Cyflwyno gwaith Dylunio a Thechnoleg i fesur dim hwy na 750mm × 750mm × 750mm a phwyso llai na 12kg. Rhaid cynnwys cyflwyniad cefndirol ysgrifenedig a thystiolaeth yn egluro'r camau wrth gyflwyno'r gwaith.

303	Dylunio a Thechnoleg Bl.2 ac iau	Pontio
304	Dylunio a Thechnoleg Bl.3 a 4	Pontio
305	Dylunio a Thechnoleg Bl.5 a 6	Pontio
306	Dylunio a Thechnoleg Bl.6 ac iau (grŵp)	Pontio
307	Dylunio a Thechnoleg Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
308	Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Dyfernir y Fedal i'r cystadleuydd sydd wedi cyflwyno'r gwaith mwyaf addawol o blith enillwyr cenedlaethol holl gynnyrch yr adran Bl.10 a dan 19 oed. Mae'r gystadleuaeth hon, ar gyfer cystadlaethau unigol yn unig. Dyma rifau'r cystadlaethau sy'n gymwys ar gyfer y Fedal: 211, 216, 222, 227, 230, 235, 240, 245, 250, 256, 262, 268, 272, 278, 284, 290, 296, 302 a 308.

309	**Darn o waith celf – cystadleuaeth i bobl ifanc rhwng 19 a 25 oed.**	**Agored**

Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed

Dyddiad cau cofrestru: 14 Ebrill 2027

Cyflwyno gwaith Celf, Dylunio neu Dechnoleg mewn unrhyw gyfrwng neu gasgliad o gyfryngau. Rhaid cynnwys detholiad o'r portffolio neu grynodeb ysgrifenedig yn y Gymraeg i gydfynd a'r gwaith.

Wrth gofrestru i gystadlu rhaid cyflwyno:

- Hyd at 6 llun ffotograff o'r gwaith NEU fideo hyd at 1 munud yn cyflwyno'r gwaith.
- Yn ogystal â 250 o eiriau yn esbonio'r syniadau/prosesau NEU ddetholiad hyd at 4 tudalen o lyfr braslunio.

Defnyddir yr ysgoloriaeth gwerth £2000 i alluogi'r enillydd i ddilyn cwrs mewn ysgol neu goleg celf cydnabyddedig neu yn fuddsoddiad er mwyn i'r artist buddugol ddilyn gyrfa yn y maes hwnnw.

310	**Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed**	**Agored**

Adran Cyfansoddi

Cyfansoddi: Cerddoriaeth

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

311	**Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.6 ac iau**	**Cyfansoddiad lleisiol a/neu offerynnol.** Beirniad: I'w gadarnhau Caniateir cywaith. Rhaid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 316.
312	**Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7, 8 a 9**	**Cyfansoddi cân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd.** Beirniad: I'w gadarnhau Caniateir cywaith. Rhaid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 316.
313	**Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 ac 11**	**Cyfansoddi darn o gerddoriaeth (mewn unrhyw gyfrwng) gyda chyswllt Cymreig** Beirniad: I'w gadarnhau Heb fod yn hwy na 5 munud. Rhaid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 315 a 316.
314	**Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.12 a 13**	**Cyfansoddiad lleisiol ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd** Beirniad: I'w gadarnhau Heb fod yn hwy na 5 munud. Rhaid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 315 a 316.
315	**Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 a dan 19 oed**	**Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer unrhyw gyfuniad o offerynnau** Beirniad: I'w gadarnhau Heb fod yn hwy na 5 munud. Rhaid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadlaethau 313, 314 a 316.

316	**Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed**	**Cyfansoddi naill ai:** **a) Cylch o ganeuon ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd** **b) Rhangan neu gytgan ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd** **c) Cyfansoddiad i un neu ddau offeryn** **ch) Cyfansoddiad i ensemble offerynnol, seindorf neu gerddorfa** Beirniaid: I'w cadarnhau Gwobr: Medal Grace Williams a Gwobr Glyn Jones o Gronfa Ymddiriedolaeth Pendyrus (£400) Rhaid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Gweler rheolau Cyfansoddi a Chreu am fanylion anfon y gwaith terfynol. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i gystadlaethau 311–315.

Cyfansoddi: Cerdd Dant

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

317	**Cyfansoddi Cainc dan 25 oed**	**Cyfansoddi Cainc ar unrhyw fesur ac unrhyw naws, 3 phennill i'r cylch** Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3.
318	**Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed**	**Cyfansoddi gosodiad i unrhyw unawd yn Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027** Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Beirniad: I'w gadarnhau

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cyfansoddi

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae'r rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cyfieithu

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

319 **Cyfieithu 19–25 oed**

Cyfieithu darn o 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd angen i'r ymgeiswyr gyfieithu darn penodol o ryw 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caiff y darn ac enw'r beirniad eu cyhoeddi ar ein gwefan ddechrau mis Ionawr 2027. Cynhelir y gystadleuaeth hon mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Bydd angen i'r ymgeiswyr gyfieithu darn penodol o ryw 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caiff y darn ac enw'r beirniad eu cyhoeddi ar ein gwefan ddechrau mis Ionawr 2027. Cynhelir y gystadleuaeth hon mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cyfieithu

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Darlunio Llyfr Stori-a-llun

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

320	**Darlunio Llyfr Stori-a-llun gyfer plant dan 7 oed (18–25 oed)**	Y dasg yw darlunio clawr yn ogystal â chyfres o ddarluniau mewnol ar gyfer llyfr stori-a-llun arfaethedig i blant dan 7 oed. Bydd ymgeiswyr yn derbyn testun y stori fel sbardun i ddarlunio clawr trawiadol i'r naratif yn ogystal â dwy dudalen (un agoriad) mewnol o'r stori. Bydd y beirniad yn ystyried amrywiaeth o elfennau wrth farnu'r darluniau gan gynnwys gallu'r ymgeisydd i briodi testun y stori â'u darluniau; dealltwriaeth yr ymgeisydd o naratif a rhediad y stori; dealltwriaeth yr ymgeisydd o gynulleidfa darged y stori a sgiliau darlunio'r ymgeisydd.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Darlunio Llyfr Stori-a-llun

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae'r rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. **Fformat** – Dylid cyflwyno'r gwaith gorffenedig fel dogfen PDF digidol. Maint tudalen o'r llyfr yw 210 x 210mm. Maint y ddwy dudalen gyfochrog (agoriad) fydd 420 x 210mm.
2. **Dulliau darlunio** – Caniateir a chroesawir unrhyw ddull o ddarlunio sy'n gyfforddus i'r ymgeisydd gan gynnwys dulliau â llaw megis paent, pensil, collage neu ddulliau digidol megis defnydd o iPad/tabled dylunio neu gyfrifiadur. Noder y bydd angen i unrhyw geisiadau sy'n defnyddio dulliau â llaw gael eu trosi i PDF digidol er mwyn cyflwyno.
3. Ni chaniateir defnyddio technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI, Artificial Intelligence) i gynhyrchu'r darluniau neu unrhyw elfen o ddarlun. Fodd bynnag, caniateir defnyddio'r dechnoleg i dacluso darluniau yn ddigidol ble'n briodol.

Sut i Gystadlu

1. Ebostiwch plant@llyfrau.cymru i dderbyn testun y stori.
2. Wedi i chi ddarllen y stori, ewch ati i ddarlunio clawr trawiadol sy'n cyfleu'r naratif ac yn gweddu'r gynulleidfa darged.
3. Ewch ati i ddewis tamaid o destun o'r stori i ddylunio'ch agoriad mewnol. Cofiwch fod 'agoriad' yn golygu 'spread' sef dwy dudalen ochr wrth ochr o fewn llyfr.
4. Casglwch eich clawr a'ch agoriad ynghŷd mewn i un PDF digidol. Nodwch ar y PDF y tamaid o destun rydych chi wedi ei ddefnyddio o'r stori i ddarlunio eich agoriad.
5. Uwchlwythwch eich PDF i'r Porth.

Y wobr

Cyflwynir y gwaith buddugol ger bron cyhoeddwyr ar draws Cymru a'u hannog i gynnig cyfnod o brofiad gwaith i'r enillydd yn ogystal â'r potenshial i ddatblygu'r gwaith buddugol ymhellach. Bydd y gwaith buddugol hefyd yn cael ei arddangos yn y Babell Celf, Dylunio a Thechnoleg ar Faes Eisteddfod yr Urdd.

Creu Ap

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

321	**Creu Ap Bl.6 ac iau**	**Creu gêm ddigidol gan ddefnyddio'r Urdd fel ysbrydoliaeth**
322	**Creu Ap Bl.7, 8 a 9**	**Creu gêm ddigidol gan ddefnyddio'r Urdd fel ysbrydoliaeth**
323	**Creu Ap Bl.10 a dan 19 oed**	**Creu gêm ddigidol gan ddefnyddio'r Urdd fel ysbrydoliaeth**

324	**Creu Ap dan 25 oed ag eithrio disgyblion ysgol**	**Creu gêm ddigidol gan ddefnyddio'r Urdd fel ysbrydoliaeth**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Creu Ap

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Gall fod yn ar gyfer dyfais symudol, tabled, ap sy'n gallu gweithio o fewn gwefan neu gyfuniad.
2. Gellir cyflwyno'r gwaith yn ddigidol ar ffurf PDF neu Flash gan nodi ei swyddogaeth h.y. beth yw pwrpas yr Ap, sut y bydd yn gweithio ac yn y blaen.
3. Dylid cynnwys dyluniadau o'r syniad. Mae modd lawrlwytho templedi tabled yn rhad ac am ddim e.e Interface Sketch.
4. Caniateir defnyddio meddalwedd 3ydd parti e.e. Scratch

Beirniad: I'w gadarnhau

Creu Gwefan

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

325	**Creu Gwefan Bl.6 ac iau (unigol neu grŵp)**	**Cynllunio cyfres gysylltiedig o dair tudalen o leiaf ar y we yn y Gymraeg (neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf).**
326	**Creu Gwefan Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)**	**Cynllunio cyfres gysylltiedig o dair tudalen o leiaf ar y we yn y Gymraeg (neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf).**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Creu Gwefan

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Rhaid i'r gwaith fod ar gael ar y we erbyn Mawrth 3, 2027.
2. Bydd y ceisiadau yn cael eu beirniadu ar-lein a rhaid iddynt aros heb eu newid ar-lein tan Gorffennaf 1, 2027.

Beirniad: I'w gadarnhau

Cynnwys Digidol

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

327	**Cynnwys Digidol – Oedran Bl.6 ac iau**	**Creu darn o gynnwys fideo (ffilm, animeiddiad neu gyflwyniad) gan unigolyn neu grŵp. Dim mwy na 3 munud.**
328	**Cynnwys Digidol – Oedran Bl.7–19 oed**	**Creu darn o gynnwys fideo (ffilm, animeiddiad neu gyflwyniad) gan unigolyn neu grŵp. Dim mwy na 3 munud.**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cynnwys Digidol

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Ffilm

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

329	**Adolygiad o unrhyw ffilm hyd at 300 o eiriau i flynyddoedd 6 ac iau**	**Adolygiad hyd at 300 o eiriau o unrhyw ffilm sydd yn addas i'r unigolyn.**
330	**Adolygiad o unrhyw ffilm hyd at 600 o eiriau i flynyddoedd 7, 8 a 9**	**Adolygiad hyd at 600 o eiriau o unrhyw ffilm sydd yn addas i'r unigolyn.** Nod y gystadleuaeth yw rhoi llwyfan i bobol ifanc i ddefnyddio eu gallu ysgrifenedig mewn fformat ac arddull newydd e.e. Gellir ysgrifennu adolygiad ar ffurf blog dyddiadur ayyb.
331	**Creu Ffilm – Oedran Bl. 6 ac iau**	**Hunan-ddewisiad** Creu ffilm heb fod yn hwy na 10 munud ar syniad gwreiddiol. Gellir dewis themâu sy'n cael eu dilyn mewn dosbarth neu faterion sy'n codi gan y bobl ifanc. Oherwydd hawlfreintiau, ni fydd hawl defnyddio cerddoriaeth boblogaidd. Rhaid defnyddio cerddoriaeth sydd ar gael am ddim neu wedi ei greu gan y disgyblion. Gall y ffilm fod yn ffilm fyw, animeiddiad neu gyfuniad o'r ddau. Cystadleuaeth i unigolion neu grŵp.
332	**Creu Ffilm – Oedran Bl. 7, 8 a 9**	**Hunan-ddewisiad** Creu ffilm heb fod yn hwy na 10 munud ar syniad gwreiddiol. Gellir dewis themâu sy'n cael eu dilyn mewn dosbarth neu faterion sy'n codi gan y bobl ifanc. Oherwydd hawlfreintiau, ni fydd hawl defnyddio cerddoriaeth boblogaidd. Rhaid defnyddio cerddoriaeth sydd ar gael am ddim neu wedi ei greu gan y disgyblion. Gall y ffilm fod yn ffilm fyw, animeiddiad neu gyfuniad o'r ddau. Cystadleuaeth i unigolion neu grŵp.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Ffilm

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Into Film yw prif elusen addysg ffilm y DU, sy'n cefnogi ysgolion a mudiadau ieuenctid i roi ffilm wrth wraidd eu darpariaeth, drwy raglenni hyfforddiant wedi eu teilwra, adnoddau, digwyddiadau a chystadlaethau. Er mwyn gweld yr holl adnoddau sydd ar gael, ewch draw i wefan Into Film, lle gellir lawrlwytho adnoddau fel 'Sut i Ysgrifennu Adolygiad Ffilm', canllawiau ar greu ffilmiau, ac adnoddau sy'n llawn cyngor ar strwythuro, datblygu a chynhyrchu ffilm fer. www.intofilm.org

Gellir cyflwyno ffilm fyw, animeiddiad, ffilm ddogfen – neu o unrhyw genre sydd o ddiddordeb! Cofiwch gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd, ac yng nghystadleuaethau Gwobrau Into Film a 'Ffilm y Mis' Into Film. Pob lwc!

Gofal Plant

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

333	**Gofal Plant Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)**	Rhaid llunio cynllun gêm a fydd yn hybu defnydd y Gymraeg ymhlith plant yn y blynyddoedd cynnar wrth i chi fynd allan ar leoliad gwaith. e.e. gêm i ddysgu sut i rifo o 1–10/lliwiau/enwau/anifeiliaid/rhannaur corff/siapiau/berfau syml fel 'canu', 'chwarae', ac ati/ansoddeiriau syml fel 'mawr', 'bach', ayyb.
334	**Gofal Plant 19–25 oed (unigol neu grŵp)**	Rhaid llunio cynllun gêm a fydd yn hybu defnydd y Gymraeg ymhlith plant yn y blynyddoedd cynnar wrth i chi fynd allan ar leoliad gwaith. e.e. gêm i ddysgu sut i rifo o 1–10/lliwiau/enwau/anifeiliaid/rhannaur corff/siapiau/berfau syml fel 'canu', 'chwarae', ac ati/ansoddeiriau syml fel 'mawr', 'bach', ayyb.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Gofal Plant

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Gall y gwaith fod yn seiliedig ar y thema 'Pontio' ond mae rhyddid i'r cystadleuwyr ddewis eu testun eu hun.

2 Rhaid cyflwyno'r gwaith drwy roi'r gêm i'ch Swyddog Cymunedol Urdd lleol erbyn 3 Mawrth, 2027. Rhaid bod y gwaith yn cael eu pecynnu yn ddiogel fel bod na ddim darnau mân yn mynd ar goll a bod enw'r cystadleuydd a'r gystadleuaeth yn cael ei labelu yn glir ar y gwaith. Does na ddim sicrwydd y bydd y gwaith yn cael eu dychwelyd yn ôl atoch.

Prosiect Gwyddonol

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

335	**Prosiect Gwyddonol Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)**	**Cyflwyno adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau** Cyflwyno adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau Creu prosiect gwyddonol yn y maes Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Peirianneg neu Fathemateg. Gweler rheol 2 isod. Disgwylir i gystadleuwyr gyflwyno adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau.
336	**Prosiect Gwyddonol Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)**	**Cyflwyno adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau** Cyflwyno adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau Creu prosiect gwyddonol yn y maes Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Peirianneg neu Fathemateg. Gweler rheol 2 isod. Disgwylir i gystadleuwyr gyflwyno adroddiad o hyd at 1,000 o eiriau.Gellir cael rhagor o fanylion ar wefan www.gweld-gwyddoniaeth.co.uk, www.stemcymru.org.uk neu gellir cysylltu gyda crest@gweld-gwyddoniaeth.co.uk / 029 2080 1644.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Prosiect Gwyddonol

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Dylai ffocws y prosiect fod ar ffurf gwaith ymchwil, ymchwiliad neu gyflwyniad. Gellir defnyddio prosiect/ proffil Crest, EESW neu debyg pe dymunir.
2. Mae rhyddid i'r cystadleuwyr ddewis eu thema eu hunain neu gweler syniadau ar wefan britishscienceassociation. org/crest-awards neu www.stemcymru.org.uk
3. Dylai'r gwaith gael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg ar fformat electronig.
4. Gwahoddir rhai o'r buddugwyr i arddangos eu gwaith yn y GwyddonLe ar Faes Eisteddfod yr Urdd.

Llenyddiaeth

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

337	**Barddoniaeth Bl.2 ac iau**	**Adar**
338	**Barddoniaeth Bl.3 a 4**	**Yn y Tŷ**
339	**Barddoniaeth Bl.5 a 6**	**Dreigiau**
340	**Barddoniaeth Bl.7**	**Y Ddinas**
341	**Barddoniaeth Bl.8**	**Porthladd**

342	Barddoniaeth Bl.9	Tonnau
343	Barddoniaeth Bl.10 ac 11	Herio
344	Barddoniaeth dan 19 oed: Ateb y llinell	Ateb y llinell- Mae'n hwyl, ac rydw'i'n mwynhau'
345	Barddoniaeth dan 19 oed: Cerdd rydd/ benrydd	Gorwelion
346	Barddoniaeth dan 25 oed: Cerdd rydd/ benrydd	Croesi
347	Barddoniaeth dan 25 oed: Cân brostest	Rhyddid
348	Barddoniaeth dan 25 oed: Cerdd cyfryngau cymdeithasol	Rhannu
349	Barddoniaeth dan 25 oed: Creu Cwpled	Gwrthryfel
350	Barddoniaeth dan 25 oed: Gorffen Englyn	Englyn sy'n cynnwys y linell "Bu hen wenynen unwaith"
351	Y Gadair Bl.10 a dan 25 oed	Ffîn/Ffiniau Cerdd neu gerddi caeth neu rydd heb fod dros 100 llinell ar y testun.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llenyddiaeth: Barddoniaeth

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae'r rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

352	Rhyddiaith Bl.2 ac iau	Y Ras
353	Rhyddiaith Bl.3 a 4	Castell
354	Rhyddiaith Bl.5 a 6	Dan y Ddaear

355	**Rhyddiaith Bl.7**	**Wrth y Môr**
356	**Rhyddiaith Bl.8**	**Anghofio**
357	**Rhyddiaith Bl.9**	**Adenydd**
358	**Rhyddiaith Bl.10 ac 11**	**Cilio**
359	**Rhyddiaith dan 19 oed: Araith neu Anerchiad**	**Ar unrhyw bwnc llosg**
360	**Rhyddiaith dan 19 oed: Stori fer**	**Gyrru**
361	**Rhyddiaith dan 19 oed: Adolygiad**	**Addas ar gyfer Golwg 360**
362	**Rhyddiaith dan 25 oed: Ymson**	**Tyfu**
363	**Rhyddiaith dan 25 oed: Blog**	**Ymateb i unrhyw ddigwyddiad**
364	**Rhyddiaith dan 25 oed: Pennod gyntaf o nofel**	**Chwyldro**
365	**Y Goron Bl.10 a dan 25 oed**	**Darn neu ddarnau o waith creadigol ar y thema: Cymydog/Cymdogion** Dros 2,500 o eiriau.
366	**Cylchlythyr gwaith grŵp Bl.6 ac iau**	**Ein Bro** Ar unrhyw gyfrwng
367	**Cylchlythyr gwaith grŵp Bl.7,8 a 9**	**Ein Bro** Ar unrhyw gyfrwng
368	**Newyddiaduraeth dan 25**	**Ar unrhyw agwedd o fywyd pobl ifanc** Prif eitem newyddion ar gyfer radio neu deledu. Derbynir ceisiadau ar unrhyw gyfrwng: recordiad llais (radio); recordiad ar ffilm (newyddion teledu); erthygl (papur newydd.)
369	**Darllediad ar y dydd** Cystadleuaeth i unigolion dan 25 oed	**Creu eitem o'r Maes (ar gyfer rhaglen gylchgrawn, Hansh, bwletin newyddion, eitem tywydd ayb) dim mwy na 4 munud.** I ddigwydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Gwaith unigol neu grŵp (hyd at 3 mewn grŵp).

370	Rhyddiaith Bl.4 ac iau (D)	Fy Ffrind
371	Rhyddiaith Bl.5 a 6 (D)	Fy Mhenwythnos
372	Cywaith Bl.6 ac iau (D)	Amser Hamdden
373	Rhyddiaith Bl.7 (D)	Fy Ysgol Gyfun / Uwchradd Newydd
374	Rhyddiaith Bl.8 a 9 (D)	Dyddiadur Penwythnos
375	Rhyddiaith Bl.10 ac 11 (D)	Fy Iechyd a Lles
376	Rhyddiaith Bl.12 a dan 19 oed (D)	Dod yn Siaradwr Newydd

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llenyddiaeth: Rhyddiaith

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Adran y Dysgwyr

Dysgwyr

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

377 Medal Y Dysgwyr Bl. 10 a dan 19 oed

Rheolau a Manylion Medal y Dysgwyr

Nod y gystadleuaeth yw gwobrwyo unigolyn sydd:

- wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg
- yn ymfalchïo yn ei G/Chymreictod
- yn gallu cynnal sgwrs yn y Gymraeg

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw ddysgwr rhwng Bl.10 a dan 19 oed, sydd yn aelod o'r Urdd. Ceir diffiniad o 'ddysgwr' yn Rheolau Cyffredinol y Dysgwyr, tudalen 84 y Rhestr Testunau. Mae croeso i unigolyn sydd wedi dod at y Gymraeg trwy system drochi gystadlu, ond eu bod wedi bod mewn addysg Gymraeg am lai na phedair blynedd.

Sut i gystadlu?

Bydd gofyn i bob cystadleuydd ateb y cwestiynau isod ar glip fideo (dim hwy na 2 funud) ac yn ysgrifenedig ar y ffurflen gais a geir ar wefan yr urdd / trwy e-bostio eisteddfod@urdd.org

1. Brawddeg yn cyflwyno dy hun
2. Oes rhywun yn y teulu yn siarad Cymraeg?
3. Beth yw dy resymau dros ddysgu'r Gymraeg?
4. Sut y dysgaist ti'r Gymraeg?
5. Beth yw effaith dysgu'r Gymraeg ar dy fywyd, a sut wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg?
6. Beth yw dy obeithion ar gyfer y dyfodol?

Dylid uwchlwytho'r ffurflen gais a'r fideo i'r Porth erbyn 3ydd o Fawrth 2027 . Cynhelir rowndiau terfynol ar-lein ac ar faes Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027. Fe hysbysir y rheiny sy'n cyrraedd y rownd derfynol, cyn Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027.

Ffurflen Gais Medal Y Dysgwyr – cliciwch yma.

378 Medal Bobi Jones 19–25 oed

Rheolau a Manylion Medal Bobi Jones

Nod y gystadleuaeth yw gwobrwyo unigolyn sydd:

- wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg
- yn ymfalchïo yn ei G/Chymreictod
- yn gallu cynnal sgwrs yn y Gymraeg

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw ddysgwr rhwng 19–25 oed, sydd yn aelod o'r Urdd. Os ydych yn troi'n 25 oed cyn Awst 31, 2027 yna nid oes hawl gyda chi i gystadlu yn y gystadleuaeth hon. Ceir diffiniad o 'ddysgwr' yn Rheolau Cyffredinol y Dysgwyr, tudalen 84 y Rhestr Testunau. Mae croeso i unigolyn sydd wedi dod at y Gymraeg trwy system drochi gystadlu, ond eu bod wedi bod mewn addysg Gymraeg am lai na phedair blynedd.

Sut i gystadlu?

Bydd gofyn i bob cystadleuydd ateb y cwestiynau isod ar glip fideo (dim hwy na 2 funud) ac yn ysgrifenedig ar y ffurflen gais a geir ar wefan yr urdd / trwy e-bostio eisteddfod@urdd.org

1. Brawddeg yn cyflwyno dy hun
2. Oes rhywun yn y teulu yn siarad Cymraeg?
3. Beth yw dy resymau dros ddysgu'r Gymraeg?
4. Sut y dysgaist ti'r Gymraeg?
5. Beth yw effaith dysgu'r Gymraeg ar dy fywyd, a sut wyt ti'n defnyddio'r Gymraeg?
6. Beth yw dy obeithion ar gyfer y dyfodol.

Dylid uwchlwytho'r ffurflen gais a'r fideo i'r Porth erbyn 3ydd o Fawrth 2027 . Cynhelir rowndiau terfynol ar-lein ac ar faes Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027. Fe hysbysir y rheiny sy'n cyrraedd y rownd derfynol, cyn Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027.

Ffurflen gais Medal Bobi Jones – cliciwch yma

Dysgwyr: Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

379	**Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio Bl.6 ac iau (unrhyw nifer) (D)**	**Thema: Chwaraeon** Unrhyw nifer Dim hwy na 5 munud Dylid anfon eich cyflwyniadau/ sgyrsiau ar ffurf MP3
380	**Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio Bl.7, 8 a 9 (unrhyw nifer) (D)**	**Thema: Dewch i Fy Ardal!** Unrhyw nifer Rhwng 5–10 munud Dylid anfon eich cyflwyniadau/ sgyrsiau ar ffurf MP3
381	**Cyflwyniad/SgwrsWedi'i Recordio Bl.10 a dan 19 oed (unrhyw nifer) (D)**	**Thema: Technoleg** Unrhyw nifer Dim hwy na 10 munud Dylid anfon eich cyflwyniadau/ sgyrsiau ar ffurf MP3

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dysgwyr: Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cystadleuaeth Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

382	**Cyflwyniad o astudiaeth neu ymchwiliad amgylcheddol Bl.10–19 oed**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cyflwyniad o astudiaeth neu ymchwiliad amgylcheddol gan unigolyn neu grŵp yn dilyn y thema 'Darganfod'.

Nod y gystadleuaeth yw cyflwyno gwaith ar fformat electronig yn defnyddio unrhyw gyfrwng megis blog, erthygl, PowerPoint, poster ayb.

Rhaid i'r ymgeiswyr gynhyrchu deunydd gwreiddiol yn cofnodi ac egluro eu hastudiaeth.

Gellir ymgeisio fel unigolyn neu fel grŵp.

Fe fydd y gwaith buddugol yn cael ei gynnwys ar wefan Cymdeithas Edward Llwyd.

Ysgoloriaeth Geraint George

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

383 **Ysgoloriaeth Geraint George 18–25 oed**

Rheolau a Manylion Ysgoloriaeth Geraint George

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1. Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er cof am y diweddar Geraint George.
2. Nod yr ysgoloriaeth, sy'n agored i unigolion 18-25 oed, yw meithrin cyfathrebwyr gwych a all helpu pobl yng Nghymru, a thu hwnt, i werthfawrogi'r byd naturiol a deall y ffactorau sy'n effeithio arno. Gwahoddir cystadleuwyr i anfon gwaith cyfathrebu, mewn unrhyw gyfrwng ac ar unrhyw bwnc amgylcheddol sy'n berthnasol i Gymru.

Bydd yr enillydd yn cael dewis un o ddau opsiwn:

1. Ymweliad wythnos â Pharc Cenedlaethol Trigav yn Slofenia lle bydd yn cael cyfle i ddysgu am waith y Parc a chymryd rhan mewn gweithgareddau
2. Mynychu cynhadledd Ewroparc a gynhelir mewn rhan wahanol o Ewrop bob blwyddyn, lle bydd yn dysgu am waith sy'n digwydd mewn gwledydd gwahanol ac yn ymweld â safleoedd.

Gwahoddir gwaith ar unrhyw gyfrwng/ffurf/gyfuniad gan gynnwys o'r rhestr ganlynol:

- Ffilm fer (1-3 munud)
- Blog (Wythnos fan lleiaf)
- Eitem sain (1-3 munud)
- Erthygl/au (hyd at 3)
- Poster/i (hyd at 3)
- Taflen/ni (hyd at 3)
- Ysgrif/au (hyd at 3)
- Stori/straeon (hyd at 3)
- Cartwnau (hyd at 6)

Meithrin Talent – Talent Meithrin

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

384 **Talent Meithrin, Meithrin Talent 16–24 oed**

Rheolau a Manylion Meithrin Talent – Talent Meithrin

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

1 Nod y gystadleuaeth, sy'n agored i aelodau'r Urdd rhwng 16 a 24 oed, yw dod o hyd i berfformwyr newydd sydd â'r ddawn a'r talent i ddiddanu plant ifanc rhwng 2–4 oed a'u rhieni.

Gwahoddir y cystadleuwyr i uwchlwytho clip fideo hyd at 5 munud o hyd yn sôn ychydig am eu hunain ac yn arddangos eu dawn perfformio drwy stori, cân, dawns neu gyfuniad.

Mae'r meini prawf yn seiliedig ar brofiad yr unigolyn o berfformio o flaen cynulleidfa, a'r gallu i ganu ac actio.

Y Broses Feirniadu

1 Bydd panel o feirniaid yn cael eu penodi i gynnwys cynrychiolydd o'r Urdd, Mudiad Meithrin a pherfformiwr profiadol.

2 Y Gystadleuaeth – Bydd y panel beirniadu yn gwahodd y sawl sydd ar y rhestr fer i berfformio ar faes Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027. Bydd y beirniaid yn beirniadu ar sail safon eu perfformiad a'u dealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa (h.y. rhieni a phlant ifanc 2–4 oed).

3 Enillydd – Cyhoeddir enw'r enillydd ar lwyfan Canlyniadau yn Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen, Gwent 2027.

4 Gwobr – Bydd gwobr ariannol o £500 yn cael ei rhannu rhwng yr enillwyr. Fel rhan o'r wobr hefyd bydd yr enillydd yn derbyn gwahoddiad i berfformio yn un o sioeau Taith Dewin a Doti, neu ar stondin Mudiad Meithrin mewn gwyliau ar draws Cymru.

Dylid cofrestru i gystadlu ac uwchlwytho eich clip fideo i'r Porth erbyn 3ydd o Fawrth, 2027.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Newyddiaduraeth

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

385 **Newyddiaduraeth 16–21 oed**

Rhaid i'r ymgeiswyr ysgrifennu stori newyddion neu gynhyrchu adroddiad newyddion ar gyfer y wê, teledu, radio neu bapur newydd ar unrhyw stori arbennig am eu hardal leol. Gellir gweithio fel unigolyn neu fel grŵp. Cynhelir y gystadleuaeth mewn partneriaeth a JOMEC Cymraeg (Prifysgol Caerdydd) ac S4C.

Rheolau a Manylion Newyddiaduriaeth

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cyfansoddi: Drama

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

387	**Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl.6 ac iau**	**Diwrnod Ofnadwy!**
388	**Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl.7, 8 a 9**	**Rwy'n trio fy ngorau...**
389	**Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl.10 a dan 19 oed**	**Hiraeth**
390	**Y Fedal Ddrama Bl.10 a dan 25 oed**	**Hunan-ddewisiad** Cyfansoddi drama neu fonolog addas i gael ei llwyfannu mewn gofod theatrig ar gyfer 1, 2 neu 3 perfformiwr (nid o reidrwydd cymeriadau). Hyd – rhwng 15 a 30 munud.
391	**Portffolio Cefn Llwyfan 19–25 oed**	**Rhaid cyflwyno portffolio digidol gydag enghreifftiau o waith cefn llwyfan ymarferol. Gall y portffolio cynnwys clipiau fideo, cynlluniau, esboniadau, ffotograffau a diagramau neu gyfuniad o'r rhain. Gall y portffolio dangos enghreifftiau o waith goleuo, sain, dylunio set a phropiau, dylunio gwisg a cholur, rheoli llwyfan neu gyfuniad o'r rhain.** Gall hyn gynnwys enghreifftiau ymarferol o waith goleuo/ sain/ dylunio set a phropiau/ dylunio gwisg a cholur / rheoli llwyfan neu gyfuniad o'r rhain.

Rheolau a Manylion Cystadleuaeth Cyfansoddi: Drama

Mae'r Rheolau Cyffredinol yng nghefn y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Mae rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Eisteddfod T

Dyddiad cau cofrestru: 3 Mawrth 2027

392	**Anifail Anwes Talentog**	Fideo dim hwy na 2 funud.
393	**Creu Fideo Cerddoriaeth**	heb fod yn hwy na 3 munud.
394	**Gornest y Gacen**	Ffotograff o'r gacen orffenedig.
395	**Gwyddoniaeth Gwallgof**	Fideo dim hwy na 2 funud o arbrawf gwyddonol.
396	**Fideo TikTok**	Fideo dim hwy na 30 eiliad

397	**Sgil Chwaraeon**	Fideo dim hwy na 2 funud yn arddangos sgil o unrhyw chwaraeon
398	**Creu Bwgan Brain**	Ffotograff o'r Bwgan Brain gorffenedig.
399	**Cystadleuaeth Cwiar na Nog**	Ffotograff o faner ar gyfer gorymdaith Pride sydd wedi cael ei creu â llaw.
400	**Sylwebu gêm pêl droed Cymru**	Troslais dros gêm pêl- droed, heb fod yn hwy na 2 funud

Cystadlaethau nad ydynt yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth

Nid yw'r cystadlaethau isod yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.

74 **Cerddorfa dan 19 oed**

75 **Band dan 19 oed**

76 **Band/Artist Unigol Bl.6 ac iau**

77 **Band/Artist Unigol Bl.7–13**

78 **Band Gwerin Bl.7–13**

153 **Tîm Siarad Cyhoeddus Bl.10 a dan 19 oed (YU)**
Cynhelir rowndiau ar gyfer Siarad Cyhoeddus ymlaen llaw

154 **Tîm Siarad Cyhoeddus 14–25 oed (Ae)**
Cynhelir rowndiau ar gyfer Siarad Cyhoeddus ymlaen llaw

166 **Detholiad o Ddrama Gerdd Bl.7 a dan 25 oed**

167 **Stand-yp 14–25 oed**

168 **Codi Hwyl dan 25 oed**

Cystadlaethau oedran hŷn sy'n mynd yn syth i'r Genedlaethol yn 2027

Dyddiad cau cofrestru'r cystadlaethau isod yw 3ydd Mawrth, 2027.

36 **Côr S.S.A 14–25 oed (Ae)**

37 **Côr T.T.B 14–25 oed (Ae)**

38 **Côr S.A.T.B. 14–25 oed (Ae) Dim hwy na 40 mewn nifer**

39 **Côr S.A.T.B 14–25 oed (Ae) Dim dros 40 mewn nifer**

95 **Grŵp Cerdd Dant 19–25 oed**

101 **Parti Cerdd Dant 14–25 oed (Ae)**

114 **Dawns Werin Bl.9 a dan 25 oed (Ae/UAd)**

120 **Dawns Stepio Grŵp Bl 10 a dan 25 oed (2–6 mewn nifer)**

121 **Dawns Stepio Bl.7 a dan 25 oed**

144 **Grŵp Llefaru dan 25 oed (Ae)**

174 **Côr Sioe dan 25 oed**

Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Mae'r rheolau isod yn berthnasol i bob Eisteddfod gan gynnwys Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol.

Cydymffurfio â'r Rheolau

Wrth gofrestru ar-lein i gystadlu mae pob cystadleuydd, hyfforddwr, person â gofal a chefnogwr yn ymrwymo i gydymffurfio gyda holl reolau cystadlu, amodau cyffredinol a chôd cyfeillgarwch yr Urdd Cod Cyfeillgarwch Eisteddfod yr Urdd. Tynnir sylw pob cystadleuydd, hyfforddwr a person â gofal at Hysbysiad Preifatrwydd yr Urdd sydd i'w weld ar Hysbysiad preifatrwydd.

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwymo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad.

Terminoleg Eisteddfod yr Urdd

Rhanbarth – Eisteddfod Sir
Trefnydd – Gall fod yn Swyddog Cymunedol / Athro / Gwirfoddolwr
Torfol – Unrhyw gystadleuaeth sydd yn cynnwys 5 neu fwy o bobl
Person â gofal – Rhiant / Gwarchodwr / Athro / Hyfforddwr
ADY – Diffinnir 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) yn unol â rheolau'r Awdurdod Addysg Leol
CDT – Celf, Dylunio a Thechnoleg

Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd

1 Cangen Ysgol – Pob cangen sydd yn gweithredu o fewn Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, Ysgol Gydol Oes neu Goleg.

2 Cangen Adran/Aelwyd – Cangen Gymunedol o'r Urdd sy'n agored i holl aelodau'r mudiad, sy'n cwrdd y tu allan i oriau a threfniant Adran Ysgol, gyda rhaglen o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

3 Canghennau Perfformio/Arbenigol – Mae croeso i'r canghennau hyn gystadlu yn yr Eisteddfod yn y categorïau oedran perthnasol, ac eithrio cystadlaethau sy'n gyfyngedig i Ysgolion, Adrannau neu Aelwydydd. Am ragor o arweiniad, cysylltwch ag Adran yr Eisteddfod.

4 Cystadlu Tu Allan i Gymru – Gellir cystadlu tu allan i Gymru mewn Eisteddfod Rhanbarth arbennig.

5 Rhaid dilyn y drefn gofrestru arferol. Er mwyn cael yr hawl i gystadlu, mae'n rhaid i bob cangen gofrestru fel cangen o'r Urdd cyn dyddiad cau cystadlu eu rhanbarth. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch aelodaeth@urdd.org.

Polisi Iaith

6 Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod.

7 Cerddoriaeth Gefndir – Lle nodir bod modd defnyddio cerddoriaeth gefndir, caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg, yn ddibynnol ar hawlfraint. Ewch i dudalen Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8 am ragor o wybodaeth.

Pwy sydd yn cael cystadlu?

8 Aelodau – Rhaid bod yn aelod o Urdd Gobaith Cymru er mwyn cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Gellir ymaelodi trwy ein gwefan: urdd.cymru/cy/ymuno

9 Hygyrchedd – Mae Eisteddfod yr Urdd yn ymrwymedig i ddarparu profiad a chyfleoedd cyfartal, ac i wneud pob ymdrech o fewn rheswm i wneud profiad o gystadlu yr un mor bleserus â phosibl i bawb.

10 Cyfyngiadau Cystadlu – Mae hawl gan bob aelod o'r Urdd gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, os mai dyma ddymuniad yr aelod.

11 Y Buddugol – Bydd y buddugol yn cynrychioli'r Rhanbarth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Pan nad yw hyn yn bosib, gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn yr Eisteddfod Rhanbarth i gymryd eu lle.

Gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn ogystal â'r cyntaf i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hysbysir y cystadleuwyr perthnasol yn fuan wedi cynnal yr Eisteddfod Rhanbarth olaf. Yn y Rhanbarth lle cynhelir yr Eisteddfod, bydd y cyntaf ac ail o bob cystadleuaeth yn cael eu gwahodd i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

12 Oedran Cystadlu – Rhaid i gystadleuwyr fod o fewn yr oedran cystadlu ar 31 Awst wedi Eisteddfod Bro'r Wenynen, Gwent 2027. Er enghraifft, mewn cystadleuaeth 14–25 oed, rhaid i ymgeiswyr fod wedi troi yn 14 oed, ond heb droi yn 25 oed. Gofynnir am ddyddiad geni pob cystadleuydd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Os oes amheuaeth ynglŷn ag oedran unrhyw gystadleuydd, bydd gan Drefnwyr yr Eisteddfod hawl i ofyn am weld tystysgrif geni'r aelod.

13 **Cystadlu**

i Caniateir i unrhyw aelodau o'r Urdd gystadlu yn y Rhanbarth lle mae eu cartref, lle maent yn derbyn eu haddysg, neu mewn cangen lle maent yn derbyn hyfforddiant.

ii Rhaid i bob aelod gystadlu mewn cystadlaethau unigol Llwyfan a Maes yn yr un gangen. Ni fydd modd cystadlu mewn mwy nag un Cylch / Rhanbarth ar gystadlaethau unigol.

iii Rhaid i bob deuawd, triawd neu bedwarawd 19-25 oed gystadlu lle mae'r mwyafrif o aelodau yn byw neu yn derbyn eu haddysg. Lle nad oes mwyafrif, rhaid cysylltu gyda'r Adran Eisteddfod cyn cofrestru. Os o dan 19 oed, rhaid cysylltu gyda changen lle mae eu cartref, lle maent yn derbyn eu haddysg, neu mewn cangen lle maent yn derbyn hyfforddiant.

iv Fe all aelod berthyn i fwy nag un gangen – Adran Ysgol ac Aelwyd er enghraifft. Caniateir i'r aelod gystadlu dros y naill gangen neu'r llall ar gystadlaethau gwahanol. Fodd bynnag mewn cystadlaethau Llwyfan a Maes rhaid dewis cystadlu fel unigolyn yn y naill gangen neu'r llall, ond mewn cystadlaethau torfol gall gysylltu â'r gangen a'i hyfforddwyd.

v Ni chaniateir i unrhyw un ymgeisio dros fwy nag un gangen, na pherthyn i fwy nag un grŵp yn yr un gystadleuaeth.

14 Aelod Unigol – Caniateir i unrhyw aelod o'r Urdd gystadlu fel Aelod Unigol pan nad ydynt yn gysylltiedig â changen yn y Rhanbarth lle mae eu cartref, neu lle maent yn derbyn eu haddysg.

15 Nifer Cangen Ysgol Gynradd – Yn y cystadlaethau lle mae cyfyngder nifer y disgyblion mewn cangen ysgol, dylid eu cyfrif o ddosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6 ar 31 Ionawr. Mewn ysgolion Gydol Oes, dylid cyfrif y disgyblion perthnasol hyd at Flwyddyn 6.

Dysgwyr

16 Caniateir aelodau sy'n symud o addysg cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg gystadlu fel dysgwr mewn cystadlaethau torfol yn unig.

Dysgwyr Cynradd – Dysgwyr yw aelodau nad ydynt wedi / yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen nac yng Nghyfnod Allweddol 2. Os ydynt yn hwyrddyfodiaid di-Gymraeg mewn ysgol lle mae mwyafrif y disgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, caniateir iddynt gystadlu fel dysgwyr am eu tair blynedd gyntaf yn yr ysgol.

Dysgwyr Uwchradd – Dysgwyr yw'r aelodau hynny nad ydynt wedi / yn dilyn Rhaglen astudio Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen nac yng Nghyfnod Allweddol 2 na 3. Caniateir hwyrddyfodiaid di-Gymraeg i gystadlu fel dysgwyr. Mae unigolyn sy'n cychwyn mewn ysgol Gymraeg swyddogol ym mlwyddyn 7 ar ôl dod o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn gymwys i gystadlu fel dysgwr am eu 3 blynedd gyntaf yn yr ysgol.

17 Dilysrwydd – Wrth gofrestru cystadleuwyr, mae'r arweinydd yn gwarantu dilysrwydd pob cystadleuydd yng nghystadlaethau Adran y Dysgwyr.

18 Mae Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn ogystal â'r rheolau cystadlu a nodir ym mhob adran arall yn berthnasol hefyd i gystadlaethau'r Dysgwyr.

Sut mae mynd ati i gystadlu?

19 Cofrestru i Gystadlu – Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno cystadlu gofrestru ar ein gwefan cyn y dyddiadau cau Cenedlaethol. Gweler Dyddiadau i'w Cofio ar dudalen 10.

20 Cyfnod Gwirio – Wedi'r dyddiad cau bydd cyfnod o dri diwrnod gwaith i aelodau wirio'r wybodaeth. Mae modd i rieni wirio cystadlaethau eu plant ar Y Porth, gan dynnu sylw'r gangen / ysgol / Urdd o unrhyw broblem.

21 Cofrestru Hwyr – Ar ôl i'r cyfnod gwirio ddod i ben bydd y system yn cau ac ni fydd modd ychwanegu cystadleuwyr nac addasu gwybodaeth oni thelir ffi weinyddol. Gellir cofrestru'n hwyr drwy dalu'r ffi weinyddol hyd at 7 diwrnod cyn eu perfformiad cyntaf.

22 Darnau Prawf – Rhaid dysgu'r darn prawf a nodir yn y Rhestr Testunau wrth ochr y gystadleuaeth, a bod yn barod i berfformio'r gwaith yn gyfan ar lwyfan Cylch / Rhanbarth a Chenedlaethol. Ni chaniateir i neb ddefnyddio copïau o eiriau a / neu gerddoriaeth mewn unrhyw fodd, ac eithrio yn yr adran offerynnol. Rhaid perfformio'r argraffiad a'r cyweirnod(au) a nodir yn y Rhestr Testunau.

23 Eisteddfod Rhanbarth – Rhaid i bob cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Rhanbarth, oni nodir yn wahanol (ar dudalen 81 a 82). Ni chaniateir i unigolyn, parti na chôr gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, oni bai iddynt gael eu hanfon yno yn swyddogol o un o Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd.

24 Cysondeb – Rhaid i bawb sy'n cystadlu berfformio'r un gwaith, ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a rhaid cadw at yr un cystadleuwyr trwy gydol y daith i'r Genedlaethol. Nid oes hawl newid cystadleuwyr rhwng y Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol. Anogir pawb mewn cystadlaethau torfol i restru eilyddion er mwyn osgoi unrhyw anawsterau a all godi.

25 Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd berfformio unrhyw ddarn y maent wedi'i berfformio eisoes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros y tair blynedd diwethaf.

Rheolau Eisteddfod

26 Os bydd cystadleuydd yn torri un o Reolau Cyffredinol neu Reolau Adrannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yna ni fydd modd iddynt dderbyn gwobr.

27 Cydraddu – Ni dderbynnir cydradd fuddugol yn unrhyw safle, yn unrhyw gystadleuaeth yn yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth na'r Genedlaethol, heblaw pan mae ond 4 yn y gystadleuaeth, lle caniateir cydraddu'r 3ydd safle yn unig. Os anfonir enwau cystadleuwyr cydradd buddugol at Adran yr Eisteddfod, ni dderbynnir yr un ohonynt. Yn yr un modd, nid oes modd rhannu gwobrau yn y cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu.

28 Rheol Amser Penodol – Ni chaniateir i unrhyw berfformiad fod dros yr amser a nodir. Os ydy'r cystadleuydd dros amser mewn Eisteddfod Gylch / Rhanbarth yna nodir hyn ar ei feirniadaeth a cheir gwybod ar lafar gan drefnydd yr Eisteddfod honno. Bydd yn rhaid addasu'r perfformiad erbyn yr Eisteddfod nesaf. Erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol ni chaniateir i unrhyw berfformiad fod dros yr amser a nodir ac ni fydd modd derbyn gwobr os yw hyn yn digwydd. Cofiwch, gall tempo perfformiad newid mewn perfformiad byw ar lwyfan mawr. Wrth baratoi rhaglen neu drac, gwnewch yn siwr fod (o leiaf) 10–30 eiliad sbâr ar y diwedd – rhag ofn!

Noder: Amseriad swyddogol Eisteddfod yr Urdd a ddefnyddir er mwyn penderfynu a yw cystadleuydd wedi mynd dros yr amser a ganiateir.

29 Ymateb Cyn Cystadlu – Dylai pob cystadleuydd fod yn barod i berfformio pan elwir arnynt. Os na fyddant yn cofrestru o fewn hanner awr i'w amser perfformio pan y'i gelwir, mae gan Adran yr Eisteddfod hawl i'w tynnu o'r gystadleuaeth.

30 Cyfeilyddion Swyddogol – Rhaid i Unawdwyr a Deuawdwyr lleisiol ddefnyddio Cyfeilyddion Swyddogol yr Eisteddfod ac eithrio'r Unawd 19–25 lle mae dewis ganddynt – gweler amodau'r gystadleuaeth honno. Rhaid i gantorion yn y cystadlaethau Theatr a'r Unawdwyr Offerynnol ddarparu eu cyfeilyddion eu hunain.

Gweithdrefnau a phrosesau

31 Dyfarniad y Beirniad – Bydd dyfarniad y beirniaid yn derfynol ym mhob achos oddi fewn i reolau a chanllawiau'r ŵyl. Dylid cyflwyno unrhyw apêl drwy arweinydd y gangen at sylw Trefnydd yr Eisteddfod neu i Swyddogion yr Urdd yn achos Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod ar ôl dyfarniad unrhyw gystadleuaeth, ond gellir trafod y mater ar lafar yn ogystal. O dan amodau eithriadol, sefydlir Panel Apêl. Rhaid cael rhesymau cadarn er mwyn cynnull Panel Apêl ac nid yw anghytuno â barn y beirniad yn sail ddigonol. Prif feirniad pob cystadleuaeth yw'r un a enwir yn gyntaf yn y Rhaglen. Bydd penderfyniad Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau a Chadeirydd yr Urdd yn derfynol ar faterion cystadleuol holl Eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru.

32 Beirniadaeth – Bydd beirniadaeth fer ar gael i bob cystadleuydd ar ôl i'r gystadleuaeth ymddangos ar y llwyfan. Ni ellir addo beirniadaeth ysgrifenedig i gystadleuwyr ar waith cyfansoddi. Cyhoeddir rhestr o'r buddugwyr ar ein gwefan ac ap, cyfrol o gyfansoddiadau llenyddol buddugol ac arddangosfa o fuddugwyr yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg. Darperir y feirniadaeth yn y Gymraeg yn unig ond gellir gwneud cais am feirniadaeth Saesneg wedi'r Eisteddfod.

33 Llwyfannu Cystadleuwyr – Bydd y buddugol ym mhob Rhanbarth yn cystadlu ar un o lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol, boed yn bafiliwn, llwyfan allanol neu leoliad cystadlu arbennig.

34 Beirniaid a Chyfeilyddion – Nid yw'r Beirniaid i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn yr adran y maent yn beirniadu ynddi rhwng 1 Medi a'r Eisteddfod. Nid yw'r Cyfeilydd (ac eithrio telynorion Cerdd Dant) i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn y gystadleuaeth y mae'n cyfeilio ynddi rhwng 1 Medi a'r Eisteddfod. Ni ddylai Beirniaid Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd feirniadu mewn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn yr un adran y byddant yn beirniadu ynddi yn y Genedlaethol. Cedwir yr hawl gan y Cyfarwyddwr i wahodd Beirniaid neu gyfeilydd ar y funud olaf er mwyn gallu cyflawni'r dasg yn yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol.

35 Gohirio Eisteddfod – Bydd gan yr Urdd hawl i gwtogi, gohirio neu beidio cynnal unrhyw Eisteddfod Gylch, Rhanbarth neu Genedlaethol oherwydd amgylchiadau arbennig. Gwna'r Urdd bob ymdrech i sicrhau y bydd holl drefniadau'r ŵyl yn effeithiol ond ni ellir dal yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled a all ddigwydd yn sgîl gohirio unrhyw Eisteddfod.

36 Llwyfannu Cystadleuaeth – Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i beidio â llwyfannu pob cystadleuaeth ar brif lwyfannau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

37 Perfformiadau Cyhoeddus – Wrth gofrestru, mae'r sawl sydd â gofal yn cydnabod fod holl Eisteddfodau'r Urdd yn ddigwyddiadau cyhoeddus a bydd aelodau yn ymddangos ar lwyfan cyhoeddus.

Cyhoeddir enwau cystadleuwyr, canghennau ac ysgolion ar lwyfan pob Eisteddfod, mewn dogfennau gweinyddol mewnol a rhennir yr enwau a lluniau cystadleuwyr ar wefannau cymdeithasol yr Urdd a gyda'r wasg, gan gynnwys ond heb gyfyngiad, papurau newydd, papurau bro, cwmnïau teledu a radio.

Darlledir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn fyw ar y teledu, y we ac ar y radio, a darlledir yn helaeth o'r Maes (gweler rheol 39 isod).

Cyfrifoldeb y sawl sydd â gofal yw hysbysu'r Urdd o unrhyw achos dros beidio â datgelu gwybodaeth unrhyw aelod/cystadleuydd ar y teledu, radio a'r we.

Mae'r Urdd yn barod i gydweithio a hwyluso'r broses er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r mudiad yn gallu cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd yn unol â dymuniad yr aelod.

38 Hawlfraint – Mae'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio ewch i '*Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8*.

Y cystadleuydd sy'n gyfrifol am sicrhau'r hawl gan y cyhoeddwyr i berfformio darn hunan-ddewisiad yn gyhoeddus. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gyfieithiad yn gyfieithiad swyddogol sydd wedi ei gofrestru a'i gymeradwyo gan y cyhoeddwyr. Gofynnir am dystiolaeth bod yr hawliau hyn wedi eu rhoi. Cyfrifoldeb y darlledwr yw sicrhau'r hawl i ddarlledu darn o waith.

Lle y defnyddir darn(au) dan hawlfraint mewn perfformiad gwreiddiol (e.e. Cân Actol / Cyflwyniad Digri), cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol i ddefnyddio'r darn(au).

Gall methu sicrhau'r caniatâd i berfformio olygu nad oes hawl gan gystadleuydd / gystadleuwyr i berfformio'n gyhoeddus mewn Eisteddfod.

Rhaid i ganiatâd y cyhoeddwr a/neu PRS alluogi'r Urdd, S4C ac/neu unrhyw drydydd parti i ddefnyddio'r perfformiad yn ddigyfyngiad ac yn fyd-eang, drwy bob cyfrwng neu ddull dosbarthu sy'n bodoli nawr neu a ddatblygir yn y dyfodol.

Mae cymorth ar glirio hawlfraint ar gael trwy ffonio Adran Gymraeg y PRS ar 020 3741 4033 neu trwy e-bostio welshtvprogrammes@prsformusic.com.

Gall yr Urdd ddarparu enghraifft o lythyr i'w ddanfon at y cyhoeddwyr gyda geiriad addas, yn ogystal â manylion cyswllt yr amrywiol gyhoeddwyr. Am ragor o wybodaeth, ewch i '*Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 8*.

Bydd yr Urdd wedi sicrhau'r hawl i berfformio'r holl ddarnau prawf sy'n ymddangos yn y Rhestr Testunau ond mae'r hawl hwnnw yn dod i ben ar ddiwedd yr Eisteddfod honno.

39 Darlledu – Wrth gofrestru i gystadlu neu wrth fynychu Eisteddfod yr Urdd, mae'r aelod a'r sawl sydd â gofal yn cydnabod bod posibilrwydd y bydd lluniau'n cael eu tynnu a pherfformiadau'n cael eu recordio a'u darlledu. Bydd gan yr Urdd yr hawl i ddefnyddio'r lluniau a'r recordiadau hyn at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol gan gynnwys darlledu ar S4C, BBC a Radio Cymru, ar-lein ac ar ein cyfryngau cymdeithasol a hynny heb geisio caniatâd pellach gan yr unigolion na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

40 Cyhoeddi – Bydd gan yr Urdd hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r gweithiau Cyfansoddi a Chreu a ddyfernir yn fuddugol ac i'w defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol, a hynny heb geisio caniatâd pellach yr awduron na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

41 Newidiadau i'r Rhestr Testunau – Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r Rhestr Testunau yn ymddangos ar wefan Eisteddfod yr Urdd: urdd.cymru/eisteddfod o dan y pennawd Rhestr Testunau / Newidiadau. Os oes unrhyw wahaniaeth yng nghyfieithiad y fersiwn Saesneg, y fersiwn Gymraeg fydd yn cael ei ddilyn.

42 Gwobrwyo – Rhoddir tystysgrif a medal yr Eisteddfod i'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mewn cystadlaethau torfol, rhoddir un fedal yn unig ond mae modd prynu mwy o fedalau trwy'r Adran Eisteddfod.

43 Maint Llwyfan – Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, maint y llwyfan Gwyrdd yw tua 10m x 8m, y llwyfan Gwyn tua 10m x 8m a'r llwyfan Coch tua 6m x 4m. Gall maint llwyfannau yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth fod yn wahanol a dylid addasu unrhyw berfformiad i'r gofod sydd ar gael.

44 Offerynnau – Ni chaniateir defnyddio eich drymiau eich hunain ar lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol ac felly bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ym mhob lleoliad, a 3 tympan ar gyfer y cystadlaethau cerddorfaol yn unig. Ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch / Rhanbarth lle bydd disgwyl i chi ddod â'ch offer eich hun. Os oes angen tympanau arnoch, rhaid gwneud cais i'r swyddfa erbyn 3 Mawrth. Am ragor o fanylion, gweler Rheolau Offerynnol.

45 Mewn cystadlaethau lle defnyddir band i gyfeilio, rhaid i fwyafrif yr aelodau fod o fewn oedran cystadlu Eisteddfod yr Urdd.

46 Gweinyddu Eisteddfod – Cyfrifoldeb Pwyllgor Rhanbarth yw gweinyddiad ei Eisteddfod Rhanbarth. Yn yr un modd, dirprwyir y cyfrifoldeb o weinyddu'r Eisteddfodau Cylch i'r Pwyllgorau Cylch. Mae rheolau cystadlu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn berthnasol i holl Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yr Urdd. Mewn anghydfod, rhaid i'r swyddogion Cylch a Rhanbarth ymgynghori ag Adran yr Eisteddfod, cyn gwneud penderfyniad.

47 Caniateir defnyddio Piano Digidol o safon os nad oes piano acwstig addas ar gael. Edrychir ar bob achos yn unigol mewn cyd-weithrediad gyda'r Gwasanaeth Cerddoriaeth lleol.

GWOBRAU'R URDD A CHOLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

Mae Urdd Gobaith Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) yn falch o gyhoeddi enwau chwe gwobr newydd sbon i gystadleuwyr sy'n serennu ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd eleni, gyda chefnogaeth rhai o dalentau mwyaf Cymru.
Bydd y gwobrau newydd yn cynnwys sesiynau mentora i chwe unigolyn 19-25 oed gyda Syr Bryn Terfel, yr actor Matthew Rhys, y ddawnswraig broffesiynol Amy Dowden, y feiolinydd Rakhi Singh, yr enillydd BAFTA Callum Scott Howells ac un o reolwyr digwyddiadau fwyaf profiadol Cymru, Sarah Hemsley-Cole.

Mae enwau'r gwobrau newydd fel a ganlyn:

- Gwobr Syr Bryn Terfel (lleisiol)
- Gwobr Amy Dowden (dawns)
- Gwobr Callum Scott Howells (sioe gerdd)
- Gwobr Matthew Rhys (theatr)
- Gwobr Rakhi Singh (offerynnol)
- Gwobr Sarah Hemsley-Cole (cefn llwyfan)

Daw'r datblygiad yma yn sgil llwyddiant partneriaeth newydd yr Urdd a CBCDC yn 2024, er mwyn cynnig profiadau amhrisiadwy i chwech o gystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd – o ddosbarthiadau meistr yn eu disgyblaethau perthnasol, i gyfleoedd i berfformio ar lwyfan rhyngwladol. Bydd y gwobrau newydd hefyd yn cynnwys cefnogaeth ariannol tuag at hyfforddiant pellach.

Cystadlaethau i gofrestru

23 Unawd 19-25 oed
43 Cyflwyno Alaw Werin unigol 19-25 oed
73 Unawd Offerynnol 19-25 oed
96 Unawd Cerdd Dant 19-25 oed
117 Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.10 ac o dan 25 oed
118 Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.10 a dan 25 oed
132 Dawns unigol 19-25 oed mewn unrhyw arddull ac eithrio Dawnsio Gwerin..
143 Llefaru Unigol 19-25 oed
170 Monolog 19-25 oed
172 Perfformiad o Gân Sioe Gerdd 19-25 oed
391 Portffolio Cefn Llwyfan 19-25 oed